



# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cam 1  
Adroddiad Sgrinio

Mawrth 2013





# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cam 1  
Adroddiad Sgrinio

Mawrth 2013

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

G.B. Edwards BEng (Anrh) CEng FICE  
Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau,  
Swyddfeydd Mochdre, Conway Road,  
Mochdre, Bae Colwyn,  
LL29 5AB.




Ffôn (01492) 574000 Ffacs (01492) 575199



# Cofnod cyhoeddi ac adolygu

<b>Teitl y Ddogfen</b>	Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cam 1 Adroddiad Sgrinio
<b>Fersiwn</b>	130326.TP11A.LFRMSHRA.02.Cymraeg
<b>Statws</b>	Wedi'i chymeradwyo

<b>Fersiwn y ddogfen</b>	<b>Nodiadau</b>	<b>Dyddiad</b>
0.2	Terfynol	Mawrth 2013

	<b>Llofnod</b>	<b>Enw</b>	<b>Dyddiad</b>
<b>Wedi'i pharatoi gan</b>		KM O'Connor H Ream	14/02/13
<b>Wedi'i gwirio gan</b>		H Webb C Probert	14/02/13
<b>Wedi'i chymeradwyo gan</b>		G Edwards	14/02/13

Mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi ar ran y parti a'i comisiynodd ac at ddibenion penodol sy'n gysylltiedig â'r prosiect sydd wedi'i nodi uchod yn unig. Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu arni na'i defnyddio at unrhyw ddiben arall.

Nid ydym yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am y canlyniadau o ddibynnu ar y ddogfen hon gan unrhyw barti arall, nac am ei defnyddio at unrhyw ddiben arall, nac o gynnwys unrhyw wall neu hepgoriad ynddi sy'n ganlyniad i wall neu hepgoriad mewn data a gyflenwyd i ni gan bartïon eraill.


Mae gwybodaeth gyfrinachol ac eiddo deallusol perchenogol yn y ddogfen hon. Ni ddylid ei dangos i bartïon eraill heb gael caniatâd gennym ni a chan y parti a'i comisiynodd.

Byddwn yn falch o ddarparu'r wybodaeth hon  
mewn fformatiau eraill



Cysylltwch â'r Swyddog Adnoddau Dynol a Chydraddoldeb HR

E-bost:  [equalities@conwy.gov.uk](mailto:equalities@conwy.gov.uk)

Ffôn:  01492 576225

# Cynnwys

<b>Pennod</b>	<b>Teitl</b>	<b>Tudalen</b>
	Rhestr Acronymau	i
	Crynodeb Gweithredol	ii
<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
1.1	Cefndir	1
1.2	Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Conwy	2
1.3	Canlyniadau ac Opsiynau Strategol SLRhPLI Conwy	3
1.4	Cefndir Deddfwriaethol	3
1.5	Proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)	4
<b>2.</b>	<b>Asesu Effeithiau Arwyddocaol Tebygol</b>	<b>6</b>
2.1	Nodi Safleoedd Ewropeaidd (Natura)	6
2.2	Amcanion Cadwraeth a Gwendidau'r Safleoedd Ewropeaidd	6
2.3	Ystyried y Polisiâu a'r Cynigion	7
2.4	Effeithiau Uniongyrchol neu Anuniongyrchol ar Safleoedd Ewropeaidd	13
2.5	Tebygolrwydd Effeithiau Arwyddocaol	13
2.5.1	Canlyniadau a allai gael effeithiau arwyddocaol neu ansicrwydd ynghylch a fyddai effeithiau arwyddocaol	14
2.6	Ymgynghori	14
<b>3.</b>	<b>Casgliadau ac Argymhellion</b>	<b>15</b>
	<b>Atodiadau</b>	<b>16</b>
Atodiad A.	Map o Safleoedd Ewropeaidd wedi'u Lleoli o fewn Parth Dylanwad CBSC	17
Atodiad B	Asesiad Sgrinio o Safleoedd Ewropeaidd sydd o fewn Ffin CBSC	18
B.1.	Amcanion a mesurau i'w hystyried yn yr asesiad sgrinio	18
B.2.	Asesiad sgrinio	19
Atodiad C	Asesiad Sgrinio o Safleoedd Ewropeaidd sydd â Chysylltiad Hydrolegol â Ffiniau CBSC ac o fewn 15 km	26

# Rhestr Acronymau

<b>AAC</b>	Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
<b>AAS</b>	Asesiad Amgylcheddol Strategol
<b>AGAA</b>	Ardal Gwarchodaeth Arbennig arfaethedig
<b>ARhC</b>	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
<b>ARhPLI</b>	Awdurdod Rheoli Perygl Llifogydd
<b>CBSC</b>	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
<b>CCGC</b>	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
<b>CCS</b>	Corff Cymeradwyo SDC
<b>CRhC</b>	Cynllun Rheoli Craidd
<b>DEFRA</b>	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
<b>DRhLID</b>	Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010
<b>LIC</b>	Llywodraeth Cymru
<b>PD</b>	Parth Dylanwad
<b>SBG</b>	Safle o Bwys i'r Gymuned
<b>SDC</b>	System Draenio Cynaliadwy
<b>SLRhPLI</b>	Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd
<b>yACA</b>	Ymgeisydd Ardal Cadwraeth Arbennig



# Crynodeb Gweithredol

Mae'n ofynnol bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC), fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, yn paratoi Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLI) o dan Adran 10 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (DRhLID).

Pwrpas y strategaeth yw ymdrin â'r perygl posibl o lifogydd sy'n codi o ffynonellau lleol o fewn ffiniau ardal yr Awdurdod. Nodau'r strategaeth yw sicrhau bod ein cymunedau'n ymwybodol o'r peryglon sy'n bodoli, yn ymwybodol o gyfrifoldebau'r Cyngor a'i bartneriaid o ran rheoli perygl o lifogydd, ac o'r hyn y gall cymunedau ei wneud eu hunain i gymryd rhan.

Rhaid gwneud Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr UE (92/43/EEC) ar gyfer unrhyw gynllun neu brosiect arfaethedig a allai gael Effaith Arwyddocaol Debygol ar un neu ragor o safleoedd Ewropeaidd, ac nad yw'n angenrheidiol i reoli'r safleoedd hynny. Felly mae'r awdurdod cymwys CBSC wedi asesu effeithiau posibl ei SLRhPLI ar safleoedd Ewropeaidd (sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a safleoedd Ramsar).

Cynhaliwyd proses sgrinio i ymchwilio i'r canlyniadau yn SLRhPLI Conwy am Effaith Arwyddocaol Debygol ar safleoedd Ewropeaidd. Credir bod y prif effeithiau niweidiol dichonol ar safleoedd a warchodir yn debygol o godi o'r canlyniadau isod yn y SLRhPLI:

- Canlyniad 1: Gwella dealltwriaeth o'r peryglon o lifogydd o ffynonellau lleol (dŵr wyneb, dŵr daear a chysiau dŵr cyffredin) ac ar yr arfordir, yn enwedig mesur 1.6 - Datblygu cofnod o asedau perygl o lifogydd ar sail map o'r sir gyfan, Adroddiadau Ymchwilio i Lifogydd, llifogydd hanesyddol ac ardaloedd sydd mewn perygl oddi wrth lifogydd fel y gall yr awdurdod llifogydd reoli risg yn rhagweithiol;
- Canlyniad 4: Lleihau'r effaith a'r canlyniadau i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd oddi wrth lifogydd ac erydu'r arfordir, yn enwedig mesur 4.2 – Pennu ardaloedd lle y mae'r perygl mwyaf o lifogydd, a datblygu rhaglen buddsoddi cyfalaf i liniaru llifogydd;
- Canlyniad 6: Gwella a/neu gynnal cynhwysedd y systemau draenio presennol drwy waith cynnal a chadw wedi'i dargedu, yn enwedig mesur 6.1 – Datblygu system gynnal gylchol ac ymatebol wedi'i seilio ar risg.

Mae'r Strategaeth yn gynllun strategol lefel uchel sydd â chanlyniadau a mesurau sy'n canolbwyntio ar hybu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r strategaeth, parodrwydd a chymryd rhan yng nghyswllt perygl o lifogydd, yn hytrach na mesurau sy'n ymwneud â phrosiectau penodol. Felly mae cwmpas y gwaith sy'n gysylltiedig â'i gweithredu'n ansicr a chaiff ei ddatblygu'n ddiweddarach.

Bydd unrhyw gynlluniau penodol sy'n cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r Strategaeth yn mynd drwy'r broses gynllunio ffurfiol yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2011 a gallai fod yn ofynnol gwneud Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol neu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) ar eu cyfer. Bydd hyn yn fodd i ganfod ac osgoi unrhyw effeithiau posibl o gynlluniau penodol. Y casgliad yw na fydd y Strategaeth yn effeithio'n arwyddocaol ar unrhyw safleoedd, ar

ôl gweithredu unrhyw fesurau osgoi ar gyfer cynlluniau penodol, a chredir nad oes angen cynnal Asesiad Priodol.

Nodwyd effeithiau llesol posibl o ganlyniad i weithredu'r SLRhPLI. Bydd cynlluniau o dan y Strategaeth yn gallu cyfrannu at wella ansawdd dŵr, lleihau'r tebygolrwydd o halogi a symud llygryddion, lleihau'r perygl o lygredd gwasgaredig a chreu cyfleoedd i ddatblygu cynefinoedd newydd a gwella bioamrywiaeth ledled CBSC.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir

O ganlyniad i'r cynnydd yn nifer a difrifoldeb yr achosion o lifogydd yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys y rheini yn haf 2007, comisiynwyd ymchwiliad gan lywodraeth i'r llifogydd, sef Adolygiad Pitt. Cafwyd crynodeb gan yr adolygiad o ddiffygion dulliau rheoli llifogydd hanesyddol a set gynhwysfawr o argymhellion yn sgîl hynny a droswyd i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (DRhLID)<sup>1</sup>. Yn DRhLID crëwyd cyfrifoldeb i Gynghorau Sir ac Unedol weithredu fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a oedd yn golygu ei bod yn ofynnol iddynt arwain ar gydlynu a rheoli perygl o lifogydd lleol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wedi'i ddynodi'n Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yng Nghymru ac, yn unol ag Adran 10 DRhLID, mae'n ofynnol ei fod yn datblygu, yn cynnal, yn cymhwyso ac yn monitro Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLI) yn ei ardal. Pwrpas y SLRhPLI yw ymdrin â'r perygl posibl o lifogydd sy'n codi o ffynonellau lleol o fewn ffin ardal yr Awdurdod Lleol. Y diffiniad o berygl llifogydd lleol yw unrhyw berygl o lifogydd o ddŵr wyneb ffo, dŵr daear a chyrsgau dŵr cyffredin. Mae perygl o lifogydd sy'n codi o'r môr, y prif afonydd a chronfeydd y tu allan i gwmpas y strategaeth ac mae'n cael ei reoli gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC). Fodd bynnag, rhoddir ystyriaeth i'r effeithiau cronus sy'n codi drwy rôl prosesau arfordirol ar risg llifogydd o ffynonellau daearol a goblygiadau posibl risgiau llifogydd lleol ar ansawdd dŵr mewn ardaloedd arfordirol.

Un o ofynion y Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC<sup>2</sup> yw bod rhaid asesu effaith y Strategaeth ar yr amgylchedd drwy Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Yn ogystal â chynnal AAS, mae'n ofynnol gwneud Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewropeaidd 92/43/EEC<sup>3</sup>. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn cael ei gweithredu yng Nghymru (a Lloegr) drwy Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2012 (fel y maent wedi'u diwygio)<sup>4</sup>.

Ni ellir gweithredu cynllun neu brosiect na'i ganiatáu oni bai fod modd pennu na fyddai'n cael effaith niweidiol ar gyfarwydd Safleoedd Ewropeaidd neu, os nad oes atebion eraill, fod rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig a bod mesurau cydbwysu yn cael eu gweithredu i sicrhau cydlyniant y rhwydwaith o Safleoedd Ewropeaidd (Natura 2000). Rhaid ystyried pob cynllun neu brosiect a allai effeithio ar Safle Ewropeaidd, beth bynnag yw ei bellter o'r safle. Ystyrir bod y SLRhPLI yn gynllun o'r fath oherwydd gallai roi cynlluniau a pholisïau ar waith a allai effeithio ar safleoedd Ewropeaidd.

Ar hyn o bryd mae 7 safle â dynodiad Ewropeaidd sydd o fewn neu'n rhannol o fewn Sir Conwy. Oherwydd bodolaeth y safleoedd sy'n cael eu gwarchod, mae'n ofynnol gwneud yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) Cam 1 hwn ac mae wedi'i gwblhau er mwyn asesu'r effeithiau posibl o weithredu'r SLRhPLI ar y safleoedd a nodwyd.

Yn ogystal â'r safleoedd sydd o fewn ffin y sir, byddai gweithredu'r Strategaeth yn gallu effeithio ar safleoedd eraill sydd wedi'u dynodi y tu allan i'r sir. Gelwir hyn yn Barth Dylanwad (PD), a byddai hefyd yn

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Ei Mawrhydi (2010) Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr

<sup>2</sup> Cyfarwyddeb 2001/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor (Mehefin 2001) ar Asesu Effeithiau Cynlluniau a Rhaglenni Penodol ar yr Amgylchedd

<sup>3</sup> Cyfarwyddeb 92/43/EEC Senedd Ewrop a'r Cyngor (Mai 1992) ar Warchod Cynefinoedd Naturiol ac Anifeiliaid a Blodau Gwylt

<sup>4</sup> Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) 2012

# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

cynnwys safleoedd a warchodir a allai fod â chysylltiad hydrolegol â'r safleoedd sydd wedi'u dynodi yn Sir Conwy. Mae mwy o fanylion am hyn yn Adran 2.

## 1.2 Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Conwy

O dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, mae'n ofynnol bod pob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn datblygu, yn cynnal (sy'n cynnwys diweddarau ac adolygu), yn cymhwyso ac yn monitro cymhwysiad strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn ei ardal. Yr enw ar y strategaeth hon yw'r Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd (SLRhPLI).

Y diffiniad o 'beryl llifogydd lleol' yn y Ddeddf yw perygl llifogydd oddi wrth:

- Dŵr wyneb ffo;
- Dŵr daear;
- Cyrsiau dŵr cyffredin.

Mae'r cyfeiriad at gyrsiau dŵr cyffredin yn cynnwys cyfeiriad at gronfa ddŵr, llyn, pwll dŵr neu arwynebeddau eraill o ddŵr sy'n llifo i gwrs dŵr cyffredin. Y diffiniad o gwrs dŵr cyffredin (yn Neddf Adnoddau Dŵr 1991) yw unrhyw gwrs dŵr, gan gynnwys llynnoedd a phyllau dŵr, nad yw'n brif afon.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, ac oherwydd hynny mae wedi paratoi SLRhPLI<sup>5</sup>. Mae'r SLRhPLI yn ddogfen strategol lefel uchel sy'n disgrifio polisïau ar gyfer rheoli perygl llifogydd. Nid yw'r Strategaeth yn rhoi manylion am reoli mewn ardaloedd penodol lle y mae perygl o lifogydd. Gellir llunio Cynlluniau Gweithredu Rheoli Ardal Benodol yn y dyfodol, a byddant yn deillio o'r Strategaeth. Bydd gweithrediad y cynlluniau hyn yn destun ARhC cynllun penodol, lle bo hynny'n briodol.

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi llunio Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru<sup>6</sup>. Hon yw'r ddogfen gyffredinol ar gyfer pob SLRhPLI yng Nghymru. Rhaid i'r SLRhPLI fod yn gyson â'r ddogfen hon. Mae LIC hefyd wedi cyhoeddi dogfen ganllaw i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol 'Local Flood Risk Management Strategies: Local Strategy' (Tachwedd 2011)<sup>7</sup>.

Yng nghanllawiau LIC nodir bod y SLRhPLI i'w datblygu'n unol â phedwar amcan cyffredinol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Genedlaethol. Y pedwar amcan yw:

- **Lleihau sgil effeithiau** llifogydd ac erydu arfordirol er lles unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd;
- **Codi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb pobl** mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol;
- **Rhoi ymateb effeithiol a pharhaus** i lifogydd ac achosion o erydu arfordirol;
- **Blaenoriaethu buddsoddi** yn y cymunedau mwyaf agored i niwed.

Nodir yn Adran 10(4) o DRhLID beth y mae'n rhaid ei gynnwys mewn SLRhPLI:

<sup>5</sup> Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (Tachwedd 2012) Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2011) Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru

<sup>7</sup> Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2011) Local Flood Risk Management Strategies – Local Strategy

# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

- Yr Awdurdodau Rheoli Risg yn ardal yr Awdurdod Lleol;
- Y swyddogaethau y caiff yr Awdurdodau hynny eu harfer wrth reoli perygl o lifogydd ac erydu arfordirol yn yr ardal;
- Yr amcanion ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol (gan gynnwys, os ydynt ar gael, unrhyw amcanion sydd mewn cynllun rheoli perygl llifogydd y mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol wedi'i baratoi'n unol â Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009);
- Y mesurau arfaethedig i gyflawni'r amcanion hynny;
- Sut a pha bryd y disgwylir gweithredu'r mesurau;
- Costau a buddion y mesurau hynny, a sut y telir amdanynt;
- Yr asesiad o berygl llifogydd lleol ar gyfer y strategaeth;
- Sut a pha bryd y caiff y strategaeth ei hadolygu;
- Sut y mae'r strategaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion amgylcheddol ehangach.

## 1.3 Canlyniadau ac Opsiynau Strategol SLRhPLI Conwy

Mae deg amcan cyffredinol yn fersiwn ymgynghori'r Strategaeth sydd wedi'u seilio ar yr egwyddorion sylfaenol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yng Nghonwy. Yr enw ar yr amcanion hyn yn Strategaeth Conwy yw **canlyniadau strategol**.

Cyflawnir y canlyniadau yn y Strategaeth drwy gyfres o fesurau sydd wedi'u hegluro yn yr adrannau sy'n dilyn yn y ddogfen hon. Yn ychwanegol at y rhain mae set o amcanion amgylcheddol i sicrhau buddion amgylcheddol ehangach yn unol â gofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr.

Bydd cynlluniau gweithredu blynyddol yn ategu'r Strategaeth er mwyn rhoi darlun mwy manwl o'r hyn y mae CBSC am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn honno a sut y bydd yn ei gyflawni. Bydd prosiectau unigol sy'n deillio o weithrediad y cynllun gweithredu blynyddol yn destun ARhC yn benodol i brosiectau lle bo hynny'n briodol.

## 1.4 Cefndir Deddfwriaethol

O dan y Gyfarwyddeb Ewropeaidd 92/43/EEC ar Warchod Cynefinoedd Naturiol ac Anifeiliaid a Phlanhigion Gwyllt (sydd hefyd yn cael ei galw'n 'Gyfarwyddeb Cynefinoedd'), mae cynefinoedd a rhywogaethau o bwys Ewropeaidd yn cael eu hamddiffyn gan y gyfraith. Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ynghyd â'r Gyfarwyddeb Adar (Cyfarwyddeb Ewropeaidd 79/409/EEC) wedi'u trosi i gyfraith y Deyrnas Unedig (DU) yn Rheoliadau Cadwraeth (Cynefinoedd Naturiol etc) 1994. Y ddeddfwriaeth hon sy'n rhoi'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd ledled y DU.

Yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, rhaid i aelod-wladwriaethau fabwysiadu mesurau sy'n cynnal ac yn adfer cynefinoedd a rhywogaethau Ewropeaidd a warchodir (sydd wedi'u rhestru yn Atodiadau I a II yn y drefn honno) at statws cadwraethol ffafriol (sydd wedi'i ddiffinio yn erthyglau 1 a 2). Mae'n ofynnol bod aelod-wladwriaethau'n cyfrannu at rwydwaith ecolegol Ewropeaidd cydlynol (sy'n cael ei alw'n 'Rhwydwaith Natura 2000') drwy ddynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau) sydd wedi'u seilio ar y cynefinoedd a rhywogaethau Ewropeaidd a warchodir. Mae Rhwydwaith Natura 2000 hefyd yn cynnwys Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAAu), sydd wedi'u disgrifio yn Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb Adar. Dynodir AGAAu ar sail eu pwysigrwydd rhyngwladol arwyddocaol fel safleoedd sy'n cynnal adar prin ac adar sy'n agored i niwed (sydd wedi'u rhestru yn Atodiad I i'r Gyfarwyddeb Adar). Safleoedd eraill Natura 2000 yw: ymgeisydd ACA (yACA), AGA arfaethedig (AGAA), Safle Morol Ewropeaidd a Safle o Bwys i'r Gymuned (SBG) sydd wedi'u mabwysiadu gan y Comisiwn Ewropeaidd ond sydd heb eu dynodi'n ffurfiol eto gan lywodraeth yr Aelod-wladwriaeth.

Yn y DU, mae safleoedd Ramsar (sydd wedi'u diogelu gan Gonfensiwn Ramsar 1971) yn cael eu gwarchod i'r un graddau â safleoedd sydd â dynodiad Natura 2000 llawn. Mae'r safleoedd hyn, sy'n cael eu cyfrif yn 'wlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol', wedi'u dynodi ar sail meini prawf yng Nghonfensiwn Ramsar. Yn gyffredinol, mae'r safleoedd hyn yn rhai sydd un ai'n cynnwys mathau o wlypdir sy'n brin neu'n unigryw neu'n safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol i gadw amrywiaeth fiolegol.

Yn unol ag Erthygl 6(3) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, rhaid cwblhau 'Asesiad Erthygl 6' (sydd hefyd yn cael ei alw'n 'Asesiad Priodol' neu 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' (ARhC)) ar gyfer unrhyw gynllun neu brosiect a allai arwain at effaith arwyddocaol ar safle Natura 2000<sup>8</sup>, nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle neu'n angenrheidiol ar gyfer hynny. Gan fod safleoedd Ramsar wedi'u gwarchod i'r un graddau â safleoedd Natura 2000, gellir cynnal ARhC ar eu cyfer os yw'r cynllun neu brosiect yn debygol o arwain at effaith arwyddocaol ar y safle Ramsar (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) 2006<sup>9</sup>). Prif bwrpas ARhC yw canfod a fydd y cynllun neu brosiect arfaethedig yn effeithio'n anffafriol ar gyfanrwydd safle sydd wedi'i ddynodi ac, os bydd, pennu mesurau lliniaru dichonol i wrthbwyso'r effeithiau hynny.

Yn yr adroddiad hwn yr enw a roddir ar y safleoedd a warchodir sydd wedi'u disgrifio uchod (h.y. safleoedd Natura 2000 a safleoedd Ramsar) yw 'Safleoedd Ewropeaidd'.

## 1.5 Proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

Mae pedwar cam allweddol ym mhroses yr ARhC a'r camau hynny yw:

**Cam Un** - Sgrinio: hon yw'r broses sy'n pennu effeithiau tebygol y prosiect neu'r cynllun ar safle Natura 2000, un ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ac mae'n ystyried a yw'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol;

**Cam Dau** – Asesiad Priodol: os gallai'r prosiect neu gynllun arwain at effeithiau arwyddocaol ar Safle Ewropeaidd, neu os oes ansicrwydd, mae'r Cam hwn yn ystyried effaith y prosiect neu gynllun, un ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar gyfanrwydd y Safle Ewropeaidd o ran adeiledd a swyddogaeth y safle a'r amcanion cadwraeth. Hefyd, os oes effeithiau niweidiol, asesir mesurau posibl i liniaru'r effeithiau hynny;

**Cam Tri** – Asesiad o Atebion Eraill: Os na fydd y mesurau lliniaru sydd wedi'u rhagnodi yng Ngham 2 yn gallu osgoi effaith arwyddocaol ar y Safle Ewropeaidd, bydd y broses hon yn edrych ar ddulliau eraill o gyflawni amcanion y prosiect neu gynllun sy'n osgoi effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd y safle Natura 2000;

**Cam Pedwar** – Asesiad lle nad oes atebion eraill a lle y mae effeithiau niweidiol yn aros: Os nad oes atebion eraill sy'n addas, mae'r Cam hwn yn galw am asesu mesurau cydbwyso lle y penderfynwyd, ar ôl asesu bod Rhesymau Hanfodol er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig, y dylai'r prosiect neu gynllun fynd yn ei flaen.

---

<sup>8</sup> Y Comisiwn Ewropeaidd (2000) *Managing Natura 2000 Sites: The provisions of Article 6 of the 'Habitats' Directive 92/43/EEC*

<sup>9</sup> Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Tachwedd 2006). *Ramsar Sites in England – A Policy Statement*

# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i hwyluso Cam 1: Sgrinio. Drwy'r broses hon asesir y tebygolrwydd o gael effeithiau arwyddocaol o ganlyniad weithredu'r Strategaeth. Os nodir bod gweithredu'r Strategaeth yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol, bydd hyn yn ysgogi cam nesaf yr asesiad - Cam 2: Asesiad Priodol.

Mae'r Cam 1: Sgrinio yn cynnwys y camau allweddol canlynol ac mae hyn wedi'i ddangos ar ffurf diagram yn Ffigur 1.2 isod:

1. Enwi'r Safleoedd Ewropeaidd y gellir cael effaith arnynt;
2. Deall Amcanion cadwraeth y safleoedd sydd wedi'u henwi;
3. Ystyried y polisiau yn y cynllun (neu, yn yr achos hwn, y Strategaeth) a maint yr effeithiau posibl ar Safle Ewropeaidd (i'r graddau y gellir eu rhagweld yn rhesymol);
4. Penderfynu a yw'r prosiect neu gynllun yn ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle(oedd) neu'n angenrheidiol ar gyfer hynny;
5. Asesu arwyddocâd unrhyw effeithiau ar y safle(oedd) Natura 2000.

Dylid arfarnu cynlluniau o dan y Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod y broses o'u paratoi, fel bod yr arfarniad yn dylanwadu ar eu datblygiad.

Yng Nghymru mae canllawiau ar gael ar asesu cynlluniau a phrosiectau yn unol â phroses yr ARhC mewn cyhoeddiadau allweddol sydd wedi'u rhestru isod:

- Guidance For Plan Making Authorities In Wales - The Appraisal Of Plans Under The Habitats Directive<sup>10</sup>;
- Guidance Note Methodological Approaches To The Habitats Regulations Assessment Of Plans And Projects Requiring Multiple Consents<sup>11</sup>.

Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â chanllawiau ynghylch effeithiau arwyddocaol yn y Design Manual for Roads and Bridges (DMRB)<sup>12</sup> a barn broffesiynol, wedi'u hystyried wrth benderfynu a allai'r SLRhPLI arfaethedig "danseilio'r Amcanion Cadwraeth ar gyfer Safle Ewropeaidd" ac felly arwain at effaith arwyddocaol ar safle o'r fath.

---

<sup>10</sup> Tyldesley, D., 2009, Draft Guidance For Plan Making Authorities In Wales: The Appraisal Of Plans Under The Habitats Directive for Countryside Council for Wales, CCGC Bangor

<sup>11</sup> Tyldesley, D., 2011, Guidance Note Methodological Approaches To The Habitats Regulations Assessment Of Plans And Projects Requiring Multiple Consents for Countryside Council for Wales, CCGC Bangor

<sup>12</sup> The Design Manual for Roads and Bridges, Volume 11, Section 4, Part 1, HD 44/09: Assessment of Implications (of highways and/or roads projects) on European Sites (including appropriate assessment) (Asiantaeth Priffyrdd, Chwefror 2009).

## 2. Aesu Effeithiau Arwyddocaol Tebygol

### 2.1 Nodi Safleoedd Ewropeaidd (Natura)

Mae'r cam hwn yn golygu nodi Safleoedd Ewropeaidd perthnasol o fewn ffin y Sir ac o fewn parth dylanwad tebygol y Strategaeth (hyd at 15 km o ffin y sir) a gwybodaeth am eu statws. Rhoddir hefyd ystyriaeth i effeithiau posibl ar Safleoedd Ewropeaidd yng nghyd-destun llwybrau achosol a sensitifwydd yr amgylchedd sy'n derbyn, ac nid ydynt o reidrwydd yn cael eu pennu gan bellteroedd gofodol.

Safleoedd perthnasol yw'r rheini lle y nodwyd bod prif resymau a/neu nodweddion cymhwysydd sydd o natur hydrolegol neu'n gysylltiedig â hydroleg ac felly lle y gallai'r Strategaeth gael effaith wrth ei gweithredu. Ar y llaw arall, mae safleoedd sydd heb gysylltiad â hydroleg (ac sydd felly'n annhebygol o brofi effeithiau oherwydd y mesurau) wedi'u hepgor.

Ar sail y wybodaeth a adolygwyd, mae 22 o Safleoedd Ewropeaidd wedi'u lleoli o fewn ffiniau'r Sir a'r Parth Dylanwad (PD), a chredir fod pob un ohonynt yn berthnasol (fel y manylir isod). Mae Atodiad A yn darparu map yn dangos y lleoliadau mewn perthynas â'r sir.

Mae'r 22 Safle Ewropeaidd wedi'u sgrinio, ac mae eu dynodiadau wedi'u dangos rhwng cromfachau:

- Eryri - (ACA);
- Mwyngloddiau Fforest Gwydyr – (ACA);
- Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn - (ACA);
- Afon Menai a Bae Conwy - (ACA);
- Pen y Gogarth - (ACA);
- Coedwigoedd Dyffryn Elwy – (ACA);
- Migneint-Arenig-Dduallt - (ACA ac AGA);
- Coedydd Aber - (ACA);
- Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion - (ACA);
- Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid - (ACA);
- Bae Lerpwl - (AGA);
- Traeth Lafan, Bae Conwy - (AGA);
- Llyn Idwal - (Ramsar);
- Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd - (ACA);
- Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn - (ACA);
- Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd - (ACA ac AGA);
- Aber Dyfrdwy - (ACA, AGA a Ramsar);
- Llwyn - (ACA);
- Pen Llŷn a'r Sarnau - (ACA);
- Llyn Tegid - (Ramsar);
- Rhinog - (ACA);
- Mynydd Helygain - (SAC).

### 2.2 Amcanion Cadwraeth a Gwendidau'r Safleoedd Ewropeaidd

Disgrifir y cyfiawnhad dros "sgrinio" Safleoedd Ewropeaidd yn Atodiad B ac Atodiad C. Mae'r wybodaeth yn Atodiadau B a C yn manylu eu prif resymau unigol dros ddynodi, nodweddion sy'n cymhwyso, amcanion cadwraeth a gwendidau.



# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Er mwyn deall ac felly asesu sut y gallai'r Strategaeth effeithio ar y Safleoedd Ewropeaidd mae'n bwysig gwybod am wendidau hanesyddol y safleoedd. Gwendidau posibl yw:

1. Diraddio oherwydd draenio yn y gorffennol a chynnal lefelau dŵr;
2. Torri ar arferion traddodiadol o ran pori a thorri brwyn a mawn yn cyfrannu at newid olynol mewn llystyfiant;
3. Llygru cyflenwadau dŵr yn enwedig gan ddŵr ffo o weithgareddau amaethyddol sy'n cynnwys nitradau a ffosffadau yn bygwth y safle oherwydd mewnbynnau o nitradau drwy ewtroffeiddio ac yn yr awyr;
4. Gweithgareddau sy'n rhwystro i gadw ansawdd dŵr a chyfanrwydd hydrolegol safleoedd;
5. Ymlediad rhywogaethau goresgynnol neu anffafriol.

Felly'r prif weithgareddau i'w hystyried yw'r rheini sy'n arwain at newid yng nghyfaint llifau, eu llwyth llygryddion a'u cyflymder.

## 2.3 Ystyried y Polisiâu a'r Cynigion

Er mwyn gwneud asesiad cywir o'r cynlluniau neu bolisiâu sydd i'w gweithredu, mae pob un o'r canlyniadau (a mesurau i gyflawni'r canlyniadau hynny) wedi'i adolygu a'i asesu i bennu'r effeithiau ar y Safleoedd Ewropeaidd a enwyd yn y camau cyntaf. Ystyriwyd pob canlyniad ar sail amrywiaeth o dopigau, sy'n cynnwys y newidiadau a gallent eu hachosi yn y Safleoedd Ewropeaidd, ac maent fel a ganlyn:

- Amcangyfrif y meintioli tebygol;
- Y parhad;
- Y lleoliad; a
- Maint yr effeithiau o'r newidiadau i'r graddau y gellir eu rhagweld yn y cam hwn.

Mae'r canlyniadau wedi'u rhestru yn y Tablau isod ynghyd â'r mesurau sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau hyn ac effaith bosibl y mesurau hyn a allai fod yn berthnasol i'r Safleoedd Ewropeaidd. Gallai'r effeithiau posibl hyn fod naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, dros dro neu'n barhaol, yn gadarnhaol neu'n negyddol.

Amlygwyd y mesurau sydd angen i weithredu'r amcanion y credir y gallent gael effaith positif ar Safle Ewropeaidd yn Nhabl 2.1 isod ac maent wedi'u cynnwys yn Nhabl 2.2.

Tabl 2.1: Effeithiau posibl a allai godi o fesurau i gyflawni canlyniadau'r Strategaeth.

<i>Canlyniad 1: Gwellu dealltwriaeth o'r peryglon o lifogydd o ffynonellau lleol (dŵr wyneb, dŵr daear a chysiau dŵr cyffredin) ac ar yr arfordir</i>	
Mesurau	Effeithiau Posibl
1.1 Cofnodi'r holl ddigwyddiadau llifogydd ac os yw'n briodol cynnal ymchwiliadau i lifogydd;	I ddibenion y broses sgrinio hon, mae'r rhan fwyaf o'r mesurau hyn wedi'u hepgor ac eithrio mesur 1.6 oherwydd credir y bydd yr amcan hwn wedi'i seilio ar waith desg ac ymchwil yn bennaf ac y bydd yn rhoi gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn y Sir a'r gallu i
1.2 Cofnodi'r holl adeiladweithiau/asedau priodol ar gyrsiau dŵr fel y gellir pennu perchenogaeth a chyfrifoldeb os	

# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

<p>bydd problem oherwydd llifogydd;</p> <p><b>1.3</b> Datblygu dull cyson o ddynodi adeiladweithiau llifogydd/draenio;</p> <p><b>1.4</b> Pennu ac asesu cyflwr asedau draenio presennol yn y Sir, er mwyn blaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf;</p> <p><b>1.5</b> Datblygu datganiad safonol i'r wasg i'w gyhoeddi ar ôl digwyddiad llifogydd;</p> <p><b>1.6</b> Datblygu map o'r sir gyfan o asedau perygl llifogydd, Adroddiadau Ymchwiliadau Llifogydd, llifogydd hanesyddol ac ardaloedd lle y mae perygl llifogydd fel y gall yr awdurdod llifogydd reoli risg yn rhagweithiol;</p> <p><b>1.7</b> Creu mapiau peryglon llifogydd a risgiau llifogydd a chynlluniau rheoli risg llifogydd ar gyfer ardaloedd yn y sir lle y gwyddom fod risg arwyddocaol o lifogydd;</p> <p><b>1.8</b> Diweddarau Asesiad Bygythiad Llifogydd Sirol Conwy.</p>	<p>gynllunio ar eu cyfer yn hytrach nag ymgymryd â gweithgareddau ymwithiol sy'n debygol o amharu ar Safleoedd Ewropeaidd.</p> <p>Byddai newidiadau mewn perchnogaeth a chyfrifoldeb dros asedau'n gallu creu effeithiau cadarnhaol a negyddol oherwydd gallent arwain at newid yn y dull o reoli ased penodol ac, oherwydd hynny, dylid eu hystyried mewn perthynas â phob ased yn ei dro drwy ymostwng yr ARhC i bob cynllun a phrosiect haen is a allai godi.</p>
---	--

*Canlyniad 2: Hybu ymwybyddiaeth a pharodrwydd unigolion a chymunedau yng nghyswllt digwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol ac effeithiau o'r newid yn yr hinsawdd ar berygl llifogydd*

Mesur	Effeithiau posibl
<p><b>2.1</b> Hybu ymwybyddiaeth gyhoeddus o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lifogydd a (methiant) amddiffynfeydd arfordirol;</p> <p><b>2.2</b> Cyhoeddi strategaeth ymwybyddiaeth gyhoeddus (gweithdai, digwyddiadau ymwybyddiaeth gyhoeddus, diweddarau a gwella gwefan y Cyngor) a'i hyrwyddo;</p> <p><b>2.3</b> Cynnal / gwella tîm digwyddiadau llifogydd (ar alw 24 awr) i ddelio â digwyddiadau llifogydd nad ydynt yn argyfwng;</p> <p><b>2.4</b> Cydweithio â chyrff statudol i hyrwyddo'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd presennol (AAC) a'i ymgyrchoedd llifogydd arfaethedig;</p> <p><b>2.5</b> Creu map amser real integredig ar gyfer y sir gyfan i roi rhybuddion llifogydd a gwybodaeth hydrolegol (tymor hir);</p> <p><b>2.6</b> Rhoi gwybod i'r cyhoedd am y mesurau sydd ar gael i atal a lliniaru llifogydd (atal a gwrthsefyll) i ddiogelu eu heiddo a'u hasedau;</p> <p><b>2.7</b> Targedau ardaloedd lle y mae hanes o lifogydd (neu lle y mae tebygolrwydd uchel o lifogydd) i hybu ymwybyddiaeth o drefnau argyfwng os ceir llifogydd.</p>	<p>I ddibenion y broses sgrinio hon, mae'r mesurau hyn wedi'u hepgor oherwydd credir bod yr amcan hwn wedi'i seilio ar waith desg ac ymchwil yn bennaf a'i fod yn canolbwyntio ar lifogydd ac ymwybyddiaeth mewn cymunedau. Oherwydd hyn, bydd yn datblygu gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn y Sir yn hytrach na chynnal gweithgareddau ymwithiol sy'n debygol o amharu ar Safleoedd Ewropeaidd.</p>

*Canlyniad 3: Cydweithio ag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd, rhanddeiliaid a'r cyhoedd i leihau peryglon o lifogydd a pheryglon ar yr arfordir, a rhannu data ac adnoddau i gael y budd mwyaf*

Mesur	Effeithiau Posibl
-------	-------------------

# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

<p><b>3.1</b> Pennu cyfrifoldeb perchnogion glannau afonydd ar gyfer rheoli eu hasedau, drwy ymgysylltu â'r cyhoedd;</p>	
<p><b>3.2</b> Parhau i gwrdd ag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd a Grŵp Cydlynio Gogledd Cymru i rannu gwybodaeth, data a gwersi a ddysgwyd;</p>	
<p><b>3.3</b> Datblygu cynllun cyfathrebu effeithiol i sicrhau cydweithio a rhannu data;</p>	
<p><b>3.4</b> Ymgysylltu â rhanddeiliaid, er mwyn pennu cyfrifoldebau partneriaid rheoli perygl llifogydd;</p>	
<p><b>3.5</b> Cyflwyno proses i gynnal cyfarfodydd ôl-adrodd mewnol ac allanol ar ôl llifogydd.</p>	<p>I ddibenion y broses sgrinio hon, mae'r mesurau hyn wedi'u hepgor oherwydd credir bod yr amcan hwn wedi'i seilio ar waith desg ac ymchwil yn bennaf a fydd yn datblygu gwell dealltwriaeth o berygl llifogydd yn y Sir yn hytrach na chynnal gweithgareddau ymwithiol sy'n debygol o amharu ar Safleoedd Ewropeaidd.</p>

*Canlyniad 4: Lleihau'r effaith a'r canlyniadau i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd oddi wrth llifogydd ac erydu'r arfordir*

Mesur	Effeithiau Posibl
<p><b>4.1</b> Pennu grwpiau sy'n agored i niwed yn y gymuned, a pharatoi cynlluniau gweithredu rhag llifogydd;</p>	
<p><b>4.2</b> Pennu ardaloedd lle y mae'r perygl mwyaf o lifogydd, a datblygu rhaglen buddsoddi cyfalaf i liniaru llifogydd;</p>	
<p><b>4.3</b> Addysgu'r cyhoedd ynghylch opsiynau ar gyfer amddiffyn eu heiddo drwy opsiynau atal llifogydd a mesurau atal a gwrthsefyll;</p>	
<p><b>4.4</b> Helpu a darparu cymorth ar ôl digwyddiadau llifogydd;</p>	
<p><b>4.5</b> Datblygu cynlluniau ymateb i lifogydd ar gyfer safleoedd penodol i gymunedau lle y mae perygl mawr o lifogydd.</p>	<p>I ddibenion y broses sgrinio hon, mae'r mesurau hyn wedi'u hepgor (ac eithrio 4.2) oherwydd credir bod yr amcan hwn wedi'i seilio ar waith desg ac ymchwil yn bennaf sy'n canolbwyntio ar bennu ardaloedd lle y mae perygl llifogydd ac ar hybu ymwybyddiaeth yn y gymuned.</p> <p>Byddai'r ffordd o dargedu arian, a'r lle y caiff ei dargedu, yn gallu achosi newid mewn cynlluniau i arafu a rheoli llifogydd ac felly gellid cael effeithiau cadarnhaol a negyddol ar Safleoedd Ewropeaidd. Ar gyfer y mesurau hyn mae'n dderbyniol i "ymostwng" yr ARhC i bob cynllun a phrosiect haen is a allai godi</p>

*Canlyniad 5: Sicrhau ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniadau cynllunio i faterion llifogydd ac i effaith penderfyniadau cynllunio ar reoli perygl llifogydd yn y dyfodol ac ar ddatblygiadau hirdymor*

Mesur	Effeithiau Posibl
<p><b>5.1</b> Datblygu canllawiau clir ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio gan yr Adran Gynllunio;</p>	
<p><b>5.2</b> Datblygu proses ar y cyd â'r Adran Gynllunio i roi cyngor a chyfarwyddyd clir i ddatblygwyr ynghylch rheoli perygl llifogydd a draenio (gan gyfeirio at gynnwys SDC mewn datblygiadau newydd);</p>	
<p><b>5.3</b> Sefydlu Corff Cymeradwyo SDC (CCS);</p>	
<p><b>5.4</b> Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Adran Gynllunio am ardaloedd lle y mae perygl llifogydd yn y Sir;</p>	
<p><b>5.5</b> Datblygu polisiâu ar gyfer rheoli defnydd tir yn effeithiol a gwella trefnau rheoli datblygu os yw'n briodol.</p>	<p>Mae'r mesurau hyn wedi'u hepgor i ddibenion y broses sgrinio hon oherwydd credir y byddant yn creu cyngor a chyfarwyddyd a fydd yn arwain at reoli perygl llifogydd yn well yn y Sir yng nghyd-destun cynllunio yn hytrach na chynnal gweithgareddau ymwithiol sy'n debygol o amharu ar Safleoedd Ewropeaidd.</p> <p>Byddai cyfarwyddyd yn gallu arwain at ddewis neu osgoi technegau neu dulliau a allai beri effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd. Yn yr un modd, gallai hybu'r defnydd o dechnegau llesol.</p> <p>Bydd unrhyw ganllawiau sy'n deillio o'r amcan hwn yn</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

	<p>cael ei sgrinio am y posibilrwydd o achosi effeithiau arwyddocaol tebygol ar Safleoedd Ewropeaidd a throsglwyddir pob caniatâd am waith i Asiantaeth yr Amgylchedd a'r corff cadwraeth natur perthnasol (CCGC ar hyn o bryd) ac uned Bioamrywiaeth i gael ymgynghori, credir na fydd effaith arwyddocaol ar Safleoedd Ewropeaidd ac felly gellir eu hepgor.</p>
<p><i>Canlyniad 6: Gwella a/neu gynnal cynhwysedd y systemau draenio presennol drwy waith cynnal a chadw wedi'i dargedu</i></p>	
Mesur	Effeithiau Posibl
<p><b>6.1</b> Pennu ac asesu cyflwr yr asedau draenio presennol yn y Sir, i flaenoriaethu buddsoddiadau cyfalaf;</p> <p><b>6.2</b> Datblygu system cynnal a chadw ymatebol a chylchol wedi'i seilio ar risg;</p> <p><b>6.3</b> Datblygu rhaglen wedi'i seilio ar risg i wella'r isadeiledd presennol.</p>	<p>Mae'r opsiynau hyn wedi'u hepgor i ddibenion y broses sgrinio hon oherwydd credir y bydd y broses o bennu ac asesu cyflwr presennol yr asedau draenio yn y sir yn rhoi gwybodaeth ar gyfer buddsoddi. Credir y bydd hyn yn cyfrannu at raglenni gwella sydd i'w datblygu yn hytrach na chynnal gweithgareddau ymwithiol sy'n debygol o amharu ar Safleoedd Ewropeaidd.</p> <p>Ar ôl cael gwybod am y blaenoriaethau, defnyddir y trefnau trwyadl sydd ar waith yn CBSC i adolygu pob prosiect gwella yn ei dro i ganfod gweithgareddau ymwithiol sy'n debygol o amharu ar Safleoedd Ewropeaidd. Ymgynghorir hefyd â'r corff cadwraeth natur perthnasol (CCGC ar hyn o bryd) lle bo'r angen mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau haen is a allai gael effaith arwyddocaol ar Safleoedd Ewropeaidd.</p>
<p><i>Canlyniad 7: Rheoli perygl llifogydd mewn ffordd gynaliadwy gan gydbwysu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol</i></p>	
Mesur	Effeithiau Posibl
<p><b>7.1</b> Sicrhau bod y canlyniadau amgylcheddol o weithredu'r SLRhPLI yn cael eu hystyried ochr yn ochr â'r manteision technegol, economaidd a chymdeithasol;</p> <p><b>7.2</b> Ystyried egwyddorion Strategaeth Cynladwyedd Conwy yn FCERM;</p> <p><b>7.3</b> Ystyried defnyddio gwlypdiroedd i arafu llifau fel y byddant yn parhau'n hirach, storio dŵr llifogydd, a darparu manteision amwynder ac ecolegol.</p>	<p>Byddai unrhyw newidiadau yn y polisiau ar gyfer trefnau a rhaglenni i reoli perygl llifogydd yn gallu effeithio ar nodwedd, amcan cadwraeth neu wendid sy'n gysylltiedig â Safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae ystyriaeth i ganlyniadau amgylcheddol yn debygol o leihau effeithiau negyddol sy'n deillio o weithredu'r SLRhPLI.</p> <p>Ar ôl cael gwybod am y newidiadau, defnyddir y trefnau trwyadl sydd ar waith yn CBSC i adolygu pob prosiect gwella yn ei dro i ganfod gweithgareddau ymwithiol sy'n debygol o amharu ar Safleoedd Ewropeaidd. Ymgynghorir hefyd â'r corff cadwraeth natur perthnasol (CCGC ar hyn o bryd) lle bo'r angen</p>

# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

	mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau haen is a allai gael effaith arwyddocaol ar Safleoedd Ewropeaidd.
<i>Canlyniad 8: Arfer mwy o ddulliau sy'n defnyddio'r amgylchedd naturiol</i>	
Mesur	Effeithiau Posibl
<p><b>8.1</b> Mabwysiadu technegau naturiol i reoli perygl llifogydd gan gynnwys SDC;</p> <p><b>8.2</b> Cadw'n gyfredol â thechnolegau newydd ac arloesol ar gyfer amddiffyn rhag llifogydd a rheoli llifogydd;</p> <p><b>8.3</b> Os yw'n bosibl, cynnwys nifer o fanteision fel gwella ansawdd dŵr, bioamrywiaeth ac amwynder;</p> <p><b>8.4</b> Parhau i weithredu ar sail datganiad Conwy am beidio â defnyddio cwlfertau.</p>	<p>Byddai newidiadau o ran draenio, peirianeg neu dechnolegau rheoli ac amddiffyn rhag llifogydd yn gallu effeithio'n negyddol neu'n gadarnhaol ar nodwedd, amcan cadwraeth neu wendid sy'n gysylltiedig â safleoedd Ewropeaidd.</p> <p>Ar ôl cael gwybod am unrhyw newidiadau bwriedig, defnyddir y trefnau trwyadl sydd ar waith yn CBSC i adolygu pob cynllun a phrosiect yn ei dro i ganfod y posibilrwydd o gynnal gweithgareddau ymwithiol sy'n debygol o amharu ar Safleoedd Ewropeaidd fesul prosiect. Ymgynghorir hefyd â'r corff cadwraeth natur perthnasol (CCGC ar hyn o bryd) lle bo'r angen mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau haen is a allai gael effaith arwyddocaol ar Safleoedd Ewropeaidd.</p>
<i>Canlyniad 9: Sicrhau bod y sgiliau angenrheidiol wedi'u datblygu i weithredu mesurau effeithiol ac arloesol i reoli perygl llifogydd</i>	
Mesur	Effeithiau Posibl
<p><b>9.1</b> Darparu lefelau staffio priodol a datblygu arbenigedd staff er mwyn cyflawni gofynion y ddeddf;</p> <p><b>9.2</b> Buddsoddi mewn meddalwedd a chaledwedd priodol;</p> <p><b>9.3</b> Sicrhau sgiliau arbenigol o'r tu allan i gyflawni prosiectau penodol;</p> <p><b>9.4</b> Cydweithio a darparu cymorth, hyfforddiant a rhwydweithio ar gyfer staff ledled y rhanbarth.</p>	<p>Nid yw'r amcan hwn yn debygol o effeithio ar unrhyw nodwedd, amcan cadwraeth na gwendid sy'n gysylltiedig â'r safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u cynnwys gan ei fod yn ymwneud â datblygu sgiliau staff.</p>
<i>Canlyniad 10: Pennu prosiectau a rhaglenni sy'n fforddiadwy, gan sicrhau'r cyllid cyfalaf mwyaf posibl o ffynonellau mewnol ac allanol</i>	
Mesur	Effeithiau Posibl
<p><b>10.1</b> Canfod ffynonellau ariannu pobl gan gynnwys cymunedau a busnesau lleol;</p> <p><b>10.2</b> Cynnal dadansoddiad cost a budd ar gyfer cylch bywyd llawn y prosiectau gan gynnwys buddion cymdeithasol ac amgylcheddol;</p>	<p>Nid yw'r amcan hwn yn debygol o effeithio ar unrhyw nodwedd, amcan cadwraeth na gwendid sy'n gysylltiedig â'r safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u cynnwys gan ei fod yn ymwneud â sicrhau cyllid i ariannu prosiectau. Felly rhagwelir y bydd y gwelliannau'n cael eu sgrinio fesul prosiect.</p>

# Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

<p><b>10.3</b> Ymchwilio i gyfleoedd i sicrhau arian cyfatebol a grantiau.</p>	<p>Ymgynghorir hefyd â'r corff cadwraeth natur perthnasol (CCGC ar hyn o bryd) lle bo'r angen mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau haen is a allai gael effaith arwyddocaol ar Safleoedd Ewropeaidd.</p>
--	---

Fel arfer, mae canlyniadau y credir eu bod yn annhebygol o effeithio ar Safle Ewropeaidd yn rhai anghyfyrdadwy ac maent yn cynnwys mesurau fel hybu ymwybyddiaeth o berygl llifogydd, datblygu mwy o berchnogaeth a phartneriaeth yn y gymuned ym mhob rhan o CBSC.

Mae'n bosibl y bydd gweithredu'r Strategaeth yn arwain at wella ansawdd ac adnoddau dŵr ledled y Sir. Byddai hefyd yn gallu ei gwneud yn llai tebygol bod tir halogedig a charthffosydd yn mynd dan ddŵr yn CBSC gan beri i lygryddion, gwrteithiau a phlaladdwyr gael eu symud a'u gollwng i gyrsgiau dŵr a chronfeydd dŵr gerllaw. Drwy fabwysiadu SDC (fel y mae'r Strategaeth yn nodi) ceir defnydd mwy cynaliadwy o ddŵr yn CBSC a bydd hyn yn cyfrannu at leihau llygredd gwasgaredig o ddŵr ffo mewn ardaloedd trefol ac at wella ansawdd dŵr yn gyffredinol yn CBSC. Mae'n bosibl y byddai gweithredu'r SLRhPLI yn cynnig cyfleoedd hefyd i ddatblygu cynefinoedd newydd a gwella bioamrywiaeth ledled CBSC, drwy ddatblygu gwlypdiroedd.

Ar y llaw arall, byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu cynnwys mesurau (e.e. gwaith peirianeg caled) a allai gael effaith niweidiol (neu lesol) ar natur ffisegol y cyrsiau dŵr a chronfeydd dŵr yn CBSC ac felly ar ansawdd y dŵr sydd ynndynt. Byddai hyn yn ei dro yn gallu effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar eu hecolog. Mae mesurau eraill a allai newid y system hydrolegol mewn ecosystem gan ddod â chanlyniadau negyddol i rywogaethau sy'n dibynnu ar yr ecosystem. Mae'n bwysig nodi y bydd yn rhaid asesu unrhyw gynllun i liniaru llifogydd yn ofalus drwy'r broses gynllunio briodol ac y byddai'n rhaid iddo fod yn destun cam sgrinio cychwynnol yr ARhC (Asesu Effeithiau Arwyddocaol Tebygol). Gallai gweithredu mesurau osgoi neu liniaru yn ystod y cam sgrinio cychwynnol ddileu'r angen am Asesiad Priodol fesul achos.

Gallai rhai o'r amcanion a'r mesurau a gynigir yn y Strategaeth arwain at gyflwyno gweithred neu brosiect a allai gael Effaith Sylweddol Debygol ar Safle Ewropeaidd.

Mae'r mesurau sydd wedi'u nodi yn Nhabl 2.2 isod wedi'u sgrinio gan y credir y gallent gael effaith negyddol ar Safle Ewropeaidd ac maent wedi'u sgrinio yn erbyn y Safleoedd Ewropeaidd yn Atodiadau B a C.

Tabl 2.2 Canlyniadau a allai achosi effaith negyddol niweidiol ar Safle Ewropeaidd

Canlyniadau sydd â mesurau na ellir eu hepgor ac a ystyrir yn y penderfyniadau sgrinio yn Atodiadau B a C	Mesur
<p><i>Amcan 1: Gwella dealltwriaeth o'r peryglon o lifogydd o ffynonellau lleol (dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsgiau dŵr cyffredin) ac ar yr arfordir.</i></p>	<p><b>1.6</b> Datblygu cofnod wedi'i seilio ar fap o'r sir gyfan o asedau perygl llifogydd, Adroddiadau Ymchwiliadau Llifogydd, llifogydd hanesyddol ac ardaloedd lle y mae perygl llifogydd fel y gall yr awdurdod llifogydd reoli risg yn rhagweithiol.</p>
<p><i>Amcan 7: Cymryd ymagwedd gynaliadwy tuag at reoli risg llifogydd gan gydbwysu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.</i></p>	<p><b>7.3</b> Ystyried defnyddio gwahanu drwy wlypdiroedd i gynyddu hyd y llif, storio dŵr llifogydd, a darparu manteision amwynder ac ecoleg.</p>

*Amcan 8: Cynyddu ymatebion sy'n manteisio ar yr amgylchedd naturiol.*

**8.1** Mabwysiadu technegau rheoli llifogydd naturiol gan gynnwys SDC.

## **2.4 Effeithiau Uniongyrchol neu Anuniongyrchol ar Safleoedd Ewropeaidd**

Fel rhan o'r broses ar gyfer asesu effeithiau'r Strategaeth, mae'n ofynnol cydnabod nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y Strategaeth a'r rheolaeth ar unrhyw Safle Ewropeaidd ac nad yw'n angenrheidiol ar gyfer hynny. Hefyd, rhaid nodi unrhyw elfennau yn y cynllun a allai gael Effaith Arwyddocaol Debygol ar unrhyw nodwedd buddiant ar eu pennau eu hunain neu ar y cyd ag unrhyw brosiectau neu gynlluniau eraill, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Gallai cyfuniad o effeithiau posibl godi yn sgil gweithredu'r Strategaeth hon, ar y cyd ag effeithiau cynlluniau, polisïau, cynlluniau a rhaglenni eraill. Er mwyn iddynt fod yn berthnasol, bydd angen i effeithiau gweddillol tebygol cynlluniau neu brosiectau eraill wneud effaith annhebygol ar y SLRhPLI yn un debygol, neu wneud effaith nad yw'n arwyddocaol ar yr SLRhPLI yn arwyddocaol, neu'r ddau.

Yn y cyd-destun uchod, mae'n anodd asesu effeithiau ar y cyd ond byddant yn codi drwy amryw o brosiectau neu brosiectau arfaethedig o fewn ffin CBSC ar raddfa fach a mawr. Fodd bynnag, credir nad yw'n ymarferol ystyried prosiectau ar raddfa fach yn y broses sgrinio hon gan ei bod yn anodd iawn mesur eu heffaith. Derbynnir y gall nifer mawr o brosiectau bach gael effaith ar y cyd, ond mae'n amhosibl mesur yr effaith yn hyderus ac yn fanwl gywir.

Mae bob amser yn anodd adnabod effeithiau ar y cyd gan y cyflawnir yr asesiad gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, ac felly nid oes modd iddo gynnwys cynlluniau sy'n gysyniadau neu ar y cam cyn bod yn gysyniadau gan ei bod yn bosibl nad yw'r rhain yn hysbys i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau a ganlyn wedi'u hystyried.

- Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr - Dŵr Cymru;
- Cynlluniau rheoli sychder perthnasol
- Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd Gogledd Orllewin Cymru a Chonwy; a
- Cynlluniau Rheoli Traethlin Perthnasol.

Bydd prosiectau mawr o fewn ffiniau CBSC yn mynd drwy broses unigol i Asesu'r Effaith Amgylcheddol (AEA) a thrwy ARhC yn ystod y broses gynllunio briodol felly bydd unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd yn y Safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys effeithiau ar y cyd gyda phrosiectau yn deillio o'r SLRhPLI, yn cael eu canfod drwy'r broses gynllunio.

O ystyried bod targedau'r SLRhPLI ynghylch mesurau ffisegol yn gyfyngedig, byddai'n anymarferol i ragweld effeithiau ar y cyd gydag unrhyw sicrwydd heb gael gwybodaeth benodol ychwanegol am waith peirianeg o ganlyniad i'r broses sgrinio hon. Bydd y cynlluniau a'r prosiectau lefel isel sy'n deillio o'r SLRhPLI yn cynnwys rhagor o fanylion ar leoliad ac amseriad mesurau ymarferol a gallent fod yn agored i'r broses sgrinio ARhC a amlinellir yn y ddogfen hon os oes angen.

## **2.5 Tebygolrwydd Effeithiau Arwyddocaol**

Ar ôl pennu'r effeithiau tebygol o ganlyniadau'r strategaeth, y cam nesaf yn yr asesiad yw penderfynu a yw'r canlyniadau a mesurau hynny'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar Safle Natura 2000, un ai ar eu

pen eu hunain neu ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill. Cyflawnir hyn ar gyfer pob Safle Ewropeaidd drwy ystyried canlyniadau a mesurau yn y Strategaeth sydd heb eu hepgor yn Adran 2.3 ar sail y meini prawf canlynol:

- Y rheswm dros ddyodi Safleoedd Ewropeaidd;
- Amodau amgylcheddol allweddol sy'n cynnal cyfanrwydd y safle;
- Gwendidau amgylcheddol;
- Dalgylch(oedd) (Asiantaeth yr Amgylchedd 2010);
- Canlyniadau sgrinio cychwynnol (heb fesurau);
- Mesurau;
- Canlyniadau sgrinio terfynol (gan gynnwys mesurau).

Mae'r tabl yn Atodiad A yn cofnodi canlyniadau'r broses sgrinio hon ar gyfer safleoedd Ewropeaidd sydd o Fewn ffin CBSC a'r tabl yn Atodiad B yn dangos y canlyniadau sgrinio ar gyfer safleoedd Ewropeaidd sydd â chysylltiad hydrolegol â ffin CBSC ac sydd o fewn 15 km.

### **2.5.1 Canlyniadau a allai gael effeithiau arwyddocaol neu ansicrwydd ynghylch a fyddai effeithiau arwyddocaol**

Gan fod y Strategaeth yn gynllun strategol lefel uchel, nid oes manylion neu fanylion digonol am gynlluniau a phrosiectau arfaethedig. Oherwydd hyn, mae asesiadau o effaith yn dibynnu ar ffactorau sydd heb eu canfod eto (llifogydd yn y dyfodol, cyllid, etc.). Er hynny, mae'n bosibl y bydd cynlluniau'n cael eu gweithredu yn y dyfodol ac y bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i brosiectau penodol ar ôl eu cynnig. Ar yr amod y bydd y prosiectau neu fesurau hyn yn cael eu sgrinio'n briodol yn unol â Chyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop cyn eu gweithredu, rhagwelir y bydd modd pennu ac osgoi effeithiau niweidiol ar Safleoedd Ewropeaidd, neu eu lliniaru os yw'n briodol, yn unol ag ysbryd y Gyfarwyddeb Ewropeaidd.

At ei gilydd, gan fod yr SLRhPLI yn gynllun lefel uchel heb unrhyw fanylion sy'n benodol i'r prosiect, lliniarir ar gyfer unrhyw effeithiau arwyddocaol posibl, drwy ymostwng yr ARhC i lawr i unrhyw gynlluniau neu brosiectau haen is. Bydd unrhyw gynllun neu brosiect haen is sy'n deillio o'r SLRhPLI yn destun ARhC yn seiliedig ar gynllun neu brosiect, a bydd yn cynnwys ymgynghori gyda'r corff cadwraeth natur perthnasol (CCGC ar hyn o bryd). Felly mae'n annhebyg y bydd y cynlluniau a'r prosiectau SLRhPLI naill ai ar eu pen eu hunain, neu ar y cyd ag elfennau o'r un cynllun, neu gynlluniau a phrosiectau eraill, yn arwain at Effaith Arwyddocaol Debygol ar Safleoedd Ewropeaidd o fewn terfynau CBSC.

## **2.6 Ymgynghori**

Ymgynghorir â'r Awdurdodau Statudol (CCGC / AAC ar hyn o bryd) fesul prosiect ynghylch yr asesiad hwn ac ynghylch unrhyw sylwadau neu argymhellion sy'n dilyn wedi iddynt ddod i law.



### 3. Casgliadau ac Argymhellion

Mae adolygiad o'r data sydd ar gael wedi dangos bod 22 o Safleoedd Ewropeaidd o fewn ffiniau'r Sir a'r Parth Dylanwad. Mae pob un o'r safleoedd hyn yn gysylltiedig â, neu gallent gael eu heffeithio gan, weithrediad Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Conwy.

Mae'r Strategaeth yn ddogfen lefel uchel sy'n bodloni gofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, a wnaeth Gyngorau Sirol ac Unedol yn gyfrifol am weithredu fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (ALILIAu). Mae'n ofynnol bod yr ALILIA yn arwain ar gydlynw a rheoli yng nghyswllt perygl llifogydd lleol. Mae'r Strategaeth yn pennu 10 canlyniad (a mesurau dilynol i gyflawni'r canlyniadau hynny) y mae'r ALILIA yn bwriadu eu cyflawni i fodloni gofynion y Ddeddf.

Yn y ddogfen hon, adolygwyd pob un o'r canlyniadau, ac ystyriwyd yr effeithiau tebygol ar y safleoedd Natura 2000 a nodwyd, o fewn ffin y Sir ac o fewn y Parth Dylanwad tebygol (o fewn 15 km i ffin y Sir gyda chysylltiad hydrolegol).

Gan fod y Strategaeth yn gynllun lefel uchel, nid yw gwybodaeth ar gael am brosiectau penodol, felly mae'r gallu i asesu effaith yn dibynnu ar ffactorau fel argaeledd cyllid ar adeg ei gweithredu. Er hynny, gallai'r Strategaeth arwain at weithredu prosiectau y bydd angen eu hystyried ymhellach wrth eu cynllunio neu eu rhoi ar waith pan fydd mwy o fanylion ar gael amdanynt. Felly mae'r SLRhPLI yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau arwyddocaol posibl ar Safleoedd Ewropeaidd drwy ymostwng yr ARhC, lle bydd unrhyw gynlluniau neu brosiectau haen is sy'n deillio o'r SLRhPLI yn destun ARhC ar sail cynllun neu brosiect lle bo hynny'n briodol.

Er y gallai gweithredu'r mesurau gael effaith, casgliad y ddogfen yw bod canfyddiad nad oes Effaith Arwyddocaol Debygol ar Safle Ewropeaidd. Felly nid oes angen unrhyw gamau pellach yn yr ARhC (h.y. Asesiad Priodol) ar hyn o bryd.

Mae'n argymhell felly fod prosiectau, mesurau neu systemau cynnal dilynol yn cael eu hasesu'n unol â'r Canllawiau i awdurdodau sy'n gwneud cynlluniau yng Nghymru - gwerthuso cynlluniau dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd (Diwygiwyd Ebrill 2010 a mis Medi 2012) a gyhoeddwyd gan CCGC (<http://www.ccg.gov.uk/landscape--wildlife/managing-land-and-sea/environmental-assessment/habitats-regulations-assessmen.aspx>). Mae'r mecanwaith cofnodi ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth sydd yn DMRB HD 44/09 (sydd wedi'i ddisgrifio yng Nghyfrol 11, Adran 4) yn ddefnyddiol gan fod y system yn un y gellir ei defnyddio i asesu prosiectau o dan nifer o ddisgyblaethau i lunio ARhC trwyadl.

# Atodiadau

Atodiad A.	Map o Safleoedd Ewropeaidd wedi'u Lleoli o fewn Parth Dylanwad CBSC _____	17
Atodiad B	Aseiad Sgrinio o Safleoedd Ewropeaidd sydd o fewn Ffin CBSC _____	18
Atodiad C	Aseiad Sgrinio o Safleoedd Ewropeaidd sydd â Chysylltiad Hydrolegol â Ffiniau CBSC ac o fewn 15 km _____	26

**Atodiad A.      Map o Safleoedd Ewropeaidd  
wedi'u Lleoli o fewn Parth  
Dylanwad CBSC**

## Atodiad B      Aseiad Sgrinio o Safleoedd Ewropeaidd sydd o fewn Ffin CBSC

### B.1. Amcanion a mesurau i'w hystyried yn yr aseiad sgrinio

Amcanion sydd â mesurau nad ydynt wedi'u hepgor ac a gaiff eu hystyried wrth sgrinio yn atodiadau B a C	Mesur
<i>Amcan 1: Gwella dealltwriaeth o'r peryglon o lifogydd o ffynonellau lleol (dŵr wyneb, dŵr daear a chysiau dŵr cyffredin) ac ar yr arfordir.</i>	<b>1.7</b> Datblygu cofnod wedi'i seilio ar fap o'r sir gyfan o asedau perygl llifogydd, Adroddiadau Ymchwiliadau Llifogydd, Llifogydd hanesyddol ac ardaloedd lle y mae perygl llifogydd fel y gall yr awdurdod llifogydd reoli risg yn rhagweithiol.
<i>Amcan 7: Cymryd ymagwedd gynaliadwy tuag at reoli risg llifogydd gan gydbwysu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.</i>	<b>7.4</b> Ystyried defnyddio gwahanu drwy wlypdiroedd i gynyddu hyd y llif, storio dŵr llifogydd, a darparu manteision amwynder ac ecoleg.
<i>Amcan 8: Cynyddu ymatebion sy'n manteisio ar yr amgylchedd naturiol.</i>	<b>8.2</b> Mabwysiadu technegau rheoli llifogydd naturiol gan gynnwys SDC.

## B.2. Asesiad sgrinio

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<b>Eryri – ACA</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Llyn Idwal – peiran bas bach yn yr ucheldir ag ansawdd dŵr uchel digyfnwid a chasgliad planhigion nodweddiadol;</li> <li>Yr enghraifft fwyaf helaeth a datblygedig (i'r de o'r Alban) o gynefinoedd glaswelltiroedd alpaidd a boreal silicaidd;</li> <li>Yr enghraifft fwyaf helaeth ac amrywiol o gymunedau planhigion tal ar ymyl dŵr yng Nghymru (h.y. planhigion wedi'u peillio gan ddŵr sy'n llifo);</li> <li>Sgrïau helaeth o greigiau igneaidd gyda rhywogaethau planhigion cysylltiedig;</li> <li>Llethrau creigiog calchaid gyda rhywogaethau planhigion cysylltiedig;</li> <li>Llethrau creigiog silicaidd gyda rhywogaethau planhigion cysylltiedig.</li> </ul> <p><i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mwsogl pluog gwyrdd main (<i>Drepanocladus vernicosus</i>);</li> <li>Llyriad y dŵr arnofiol (<i>Luronium natans</i>).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ac ehangu cynefinoedd Atodiad I a sicrhau parhad eu hadeiledd;</li> <li>Sicrhau presenoldeb a helaethder o rywogaethau planhigion nodweddiadol ym mhob cynefin Atodiad 1, fel y nodwyd yn y Cynllun Rheoli Craidd (CRhC);</li> <li>Sicrhau nad oes arwyddion o aflonyddu (h.y. gorburi, sathru trwm, llosgi aml neu ddraenio) mewn unrhyw gynefinoedd Atodiad I, fel y nodwyd yn y CRhC;</li> <li>Sicrhau nad oes rhywogaethau goresgynnol anffroddol;</li> <li>Sicrhau bod mwsogl pluog gwyrdd main yn rhuthrau Cwm Afon Llafar ynghyd â llystyfiant cysylltiedig arall, fel y nodwyd yn y CRhC;</li> <li>Sicrhau bod Llyriad y dŵr arnofiol yng Nghwmffynnon.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pori helaeth gan ddefaid;</li> <li>Cymunedau mynyddig fel rhostir mwsogl wedi'u difrodi a'u lleihau;</li> <li>Pwysau dwys oddi wrth hamdden sydd wedi arwain at broblemau erydu difrifol mewn mannau (gwaith adfer yn mynd ymlaen);</li> <li>Cyrsiau dŵr a llynnoedd yn neilltuoel o agored i asideiddio.</li> </ul>	<p>Ardal yng nghynllun rheoli llifogydd dalgylchoed d'afon Conwy ac afon Clwyd<sup>13</sup>. <i>Is-ardal Dalgylch Conwy a'r ucheldir</i></p>	<p>Mae 2 o'r prif resymau a'r nodweddion cymhwys ar gyfer dynodi'r safle'n hydrolegol, ac mae 6 yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AAC yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwys yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

<sup>13</sup> Asiantaeth yr Amgylchedd (2010) *Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Conwy a Chlwyd*

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<p><b>Nodweddion Cymhwys Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Rhostiroedd gwlyb Gogledd Iwerydd gyda grug deilgroes (<i>Erica tetralix</i>);</li> <li>▪ Rhostiroedd sych Ewropeaidd;</li> <li>▪ Glaswelltiroedd calchaid alpaidd ac is-alpaidd;</li> <li>▪ Glaswelltir <i>Narudus</i> (genws glaswellt) cyfoethog ei rywogaethau, ar is-haenau silicaidd mewn ardaloedd mynyddig (ac ardaloedd is-fynyddig yng nghyfandir Ewrop);</li> <li>▪ Gorgorsydd;</li> <li>▪ Pantiau ar is-haenau mawn o 'Rhynchosporion' (cynefin prin o fawn llaith, agored lle mae stribedi o lystyfiant);</li> <li>▪ Ffynhonnau caregu gyda thwffa (tyddodiad caled o galsiwm carbonad);</li> <li>▪ Ffeniau alcaliaidd;</li> <li>▪ Ffurfiau arloesol alpaidd o 'Carcion bicoloris-atrofuscae', sef un o'r ychydig gymunedau planhigion naturiol yn y DU;</li> <li>▪ Hen goedwigoedd o dderw mes di-goes gyda chelyn a rhywogaethau gwibredyn yn Ynysoedd Prydain.</li> </ul>						
<b>Mwyngloddiau Fforest Gwydir – ACA</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Mwyngloddiau plwm a sinc gwasgaredig a diddefnydd;</li> <li>▪ Glaswelltiroedd calaminariaidd gyda rhywogaethau planhigion:</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cynnal ac ehangu glaswelltir Calaminariaidd. Sicrhau bod rhywogaethau planhigion llydanddail, conwydd, egsotig neu brysgwydd;</li> <li>▪ Cynnal y cynefin gorau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Safleoedd glaswelltir yn rhan ohono sydd heb eu rheoli gan mwyaf, a heb eu defnyddio ar gyfer hamdden gan mwyaf;</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd dalgylchoed d afon Conwy ac</p>	<p>Nid oes yr un o'r prif resymau na'r nodweddion cymhwys yn hydrolegol nac yn gysylltiedig â hydroleg.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AAC yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhwngwylir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion</b></p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<p>duegredynen fforchog (<i>Asplenium septentrionale</i>) a chodywasg y mwynfeydd (<i>Thlaspi caerulescens</i>).</p> <p><b>Nodweddion Cymhwys Eraill</b> <i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ystlum pedol lleiaf (<i>Rhinolophus hipposideros</i>).</li> </ul>	<p>posibl ar gyfer clwydo a chynefin bwydo digonol i gynnal y boblogaeth ystlumod pedol lleiaf yn y tymor hir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai ymlediad conwydd fod yn broblem, mae angen monitro parhaus.</li> </ul>	<p>afon Clwyd: <i>Dalgylch Conwy ac is-ardal Ucheldir a Dyffryn Conwy</i></p>	<p>Er hynny, mae Ystlumod Pedol Lleiaf yn dibynnu ar nodweddion llinol i gymudo rhwng manau clwydo a manau bwydo. Felly byddai effeithiau eilaidd o ganlyniad i brosiectau fel clirio llystyfiant, goleuadau, etc yn gallu effeithio ar y safleoedd a ddynodwyd.</p>	<p>ymgyngori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC</p>	<p><b>cymhwys yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>
<b>Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn – ACA</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Coedwig dyfnant gydag ynn (<i>Fraxinus excelsior</i>), llwyfenni llydanddail (<i>Ulmus glabra</i>) a rhywogaethau pisgwydd (pisgwydd dail bach (<i>Tilia cordata</i>) gan mwyaf). Ceir sycamorwydd (<i>Acer pseudoplatanus</i>) a gyflwynwyd mewn llawer man.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwys Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Glaswelltiroedd sych lled-naturiol a gweddau prysgdir: ar is-haenau calchaid (h.y. glaswelltiroedd a geir ar briddoedd tenau, cyfoethog o ran calch sydd wedi'u draenio'n dda sy'n gysylltiedig â chalch a chalchfaen);</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ac ehangu'r coetir (drwy brosesau naturiol), ond peidio ag ymyrryd â glaswelltir na choedwigoedd yw.</li> <li>Sicrhau mai ynn yw'r brif rywogaeth frodorol o goed ynghyd â rhywogaethau llydanddail eraill a geir yn lleol. Mae mwy o fanylion yn y CRhC am rywogaethau planhigion, eu helaethder a'u dosbarthiad;</li> <li>Cynnal adeiledd amrywiol y coetir gyda thwf a phydredd o bob cyfnod yn y coetir gan gynnwys coed aeddfed a hynafol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai cynhyrchu pren a saethu anifeiliaid hela yn gallu effeithio ar adeiledd y coetir a phlanhigion y llawr;</li> <li>Mae pwysau hamdden sy'n gysylltiedig â mynediad cyhoeddus yn gallu achosi difrod hefyd.</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd dalgylchoed d afon Conwy ac afon Clwyd: <i>Is-ardal Conwy, Cyffordd Llandudno, Llandudno, Mochdre</i></p>	<p>Nid oes yr un o'r prif resymau na'r nodweddion cymhwys yn hydrolegol nac yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly mae'n annhebygol y bydd gweithredu'r SLRhPLI yn effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AAC yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwys yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<ul style="list-style-type: none"> <li>Coetir yw (<i>Taxus baccata</i>).</li> </ul>					<p>arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC</p>	
<b>Afon Menai a Bae Conwy – ACA</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Banciau tywod wedi'u gorchuddio ychydig gan ddŵr môr bob amser;</li> <li>Fflatiau llaid a fflatiau tywod heb eu gorchuddio gan ddŵr môr ar y distyll;</li> <li>Riffiau.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cilfachau a baeau mawr bas;</li> <li>Ogofydd môr dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ac ehangu dosbarthiad a maint y cynefinoedd Atodiad I o fewn y safle;</li> <li>Cynnal adeiledd a swyddogaeth cynefinoedd Atodiad I o fewn y safle a sicrhau na chânt eu diraddio, fel y mae'r CRhC yn nodi;</li> <li>Cynnal presenoldeb, helaethder, cyflwr ac amrywiaeth rhywogaethau planhigion nodweddiadol, fel y mae'r CRhC yn nodi.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae adeiladu'n gallu aflonyddu ar gynefinoedd Ewropeaidd ac amharu ar brosesau ffisegol sy'n hanfodol i gynnal y cynefinoedd hyn;</li> <li>Pysgota masnachol (h.y. treillio);</li> <li>Byddai gwaredu deunydd a garthwyd yn gallu cyfrannu at greu mwy o dyrfedd a all effeithio yn ei dro ar ddosbarthiad a chyfansoddiad cymunedau algaid is-lanwol;</li> <li>Mae datblygu ffynhonnau olew a thraffig cychod cyson i Fae Lerpwl yn ffynonellau llygredd posibl.</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd dalgylchoed d afon Conwy ac afon Clwyd:</p> <p><i>Is-ardal Dalgylch ac Ucheldir Conwy</i></p> <p><i>Is-ardal Conwy, Cyffordd Llandudno, Llandudno, Mochdre</i></p>	<p>Mae'r holl brif resymau a'r nodweddion cymhwyso yn hydrolegol.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AAC yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>
<b>Pen y Gogarth – ACA</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ac ehangu rhostir sych, ond peidio ag ymyrryd â glaswelltir sych</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lefel uchel o bori ar y llwyfandir a'i lethrau sydd wedi</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli</p>	<p>Mae nodwedd cymhwyso'n gysylltiedig â</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AAC</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli,</p>



Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhostiroedd sych Ewropeaidd;</li> <li>Glaswelltiroedd sych lled-naturiol a gweddau prysgdir: ar is-haenau calchaid (h.y. glaswelltiroedd a geir ar briddoedd tenau, cyfoethog o ran calch sydd wedi'u draenio'n dda sy'n gysylltiedig â chalch a chalchfaen).</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Clogwyni môr â llystyfiant ar arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig.</li> </ul>	<p>lled-naturiol. Mae mwy o fanylion yn y CRhC am rywogaethau sy'n bresennol a chyfnodau llystyfiant rhostiroedd;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rheoli rhodyn (<i>Pteridium aquilinum</i>), eithin (<i>Ulex europaeus</i>) a rhywogaethau llwyni a choed brodorol, yn unol â'r CRhC.</li> </ul>	<p>creu tywyrch a borwyd yn fyr;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhywogaethau llwyni brodorol ac anffrodorol wedi ymledu i fannau nad yw anifeiliaid pori yn gallu eu cyrraedd;</li> <li>Pwysau o ddefnydd hamdden – mae'r safle ger Llandudno, canolfan bwysig i ymwelwyr.</li> </ul>	<p>llifogydd dalgylchoed d afon Conwy ac afon Clwyd:</p> <p><i>Is-ardal Conwy, Cyffordd Llandudno, Llandudno, Mochdre.</i></p>	<p>hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC</p>	<p><b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>
<b>Coedwigoedd Dyffryn Elwy – ACA</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Coetir gyda chanopi amrywiol o ynn, pîsgwydd dail bach a cherddin Morgannwg gwyllt (<i>sorbus torminalis</i>) a phlanhigion is eithriadol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cadw maint y coetir (drwy brosesau naturiol);</li> <li>Sicrhau bod y coetir yn cynnwys rhywogaethau planhigion priodol, sydd wedi'u nodi yn y CRhC, o helaethder a dwysedd priodol. Gwrthweithio presenoldeb conwydd (heblaw yw), ffawydd, oestrwydd (<i>Carpinus sp.</i>) a sycamorwydd;</li> <li>Cadw coed marw (un ai'n sefyll neu wedi cwmpo) i roi cynefin ar gyfer</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pori gan ddanasod. Rhai rhannau dan fygythiad oherwydd pori gan anifeiliaid domestig;</li> <li>Ceir rhywogaethau goresgynnol anffrodorol yn y coetir (ffawydd ac oestrwydd yn bennaf);</li> <li>Mae rhannau o'r coetiroedd hyn wedi'u rheoli drwy goedwigaeth. Os</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd dalgylchoed d afon Conwy ac afon Clwyd:</p> <p><i>Is-ardal Dalgylch ac Ucheldir Clwyd</i></p>	<p>Nid yw'r prif reswm yn hydrolegol nac yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly mae'n annhebygol y bydd gweithredu'r SLRhPLI yn effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AAC yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
	infertebrata, ffyngau a rhywogaethau coetir eraill.	caiff hyn ei ddwysáu neu ei ehangu, gallai fod yn niweidiol.			gwaith yn yr ACA.  Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.  Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC	
<b>Migneint-Arenig-Dduallt – ACA ac AGA</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhostiroedd sych Ewropeaidd;</li> <li>Gorgorsydd.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwysio Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>22 o lynnoedd (ag arwynebedd o fwy na 0.5 ha) a phyllau dŵr llai – sydd o natur gamfaethol (h.y. cynnwys ocsigen isel);</li> <li>Rhostiroedd gwlyb Gogledd Iwerydd gyda grug deilgroes;</li> <li>Hen goedwigoedd o dderw mes di-goes gyda chelyn a rhywogaethau gwibredyn yn Ynysoedd Prydain.</li> </ul> <p><b>Rhesymau dros ddynodi AGA</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Safle o bwysigrwydd Ewropeaidd ar gyfer rhywogaethau adar Atodiad I sydd wedi'u rhestru yn y Gyfarwydddeb Adar: bodaod tinwyn yn nythu (<i>Circus cyaneus</i>), hebog tramor</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ac ehangu cynefinoedd Atodiad I.</li> <li>Cynnal ac ehangu helaethder a dosbarthiad planhigion anghyffredin y cynefinoedd Atodiad I hyn yn unol â'r CRhC;</li> <li>Rheoli ardaloedd o orgors lai ffafriol. Cynnal ac adfer adeiledd gorgorsydd a rhostiroedd i gynnwys nodweddion na rhostiroedd yn y CRhC;</li> <li>Rheoli erydiad mawn mewn gorgorsydd a sicrhau na fydd rhywogaethau goresgynnol anffordorol na choed ar orgorsydd na rhostiroedd;</li> <li>Rheoli adeiledd coetiroedd a helaethder a dosbarthiad rhywogaethau planhigion yn unol â'r CRhC;</li> <li>Cadw coed marw ar y safle.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae pori amhriodol, llosgi a draenio wedi arwain at ddiraddio gorgorsydd a rhostiroedd;</li> <li>Coedwigoedd yn ymestyn i gyforgorsydd a rhostiroedd;</li> <li>Llystyfiant a nodweddion llynnoedd yn agored i effaith asideiddio oherwydd llygredd aer. Mae calchu artiffisial yn y dalgylch yn fygythiad hefyd;</li> <li>Mae chwarela wedi effeithio ar y safle yn y gorfennol gan arwain at ddinistrio cynefinoedd.</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd dalgylchoed d afon Conwy ac afon Clwyd: <i>Is-ardal Dalgylch ac Ucheldir Conwy</i></p> <p>Ardal cynllun rheoli llifogydd Gogledd-orllewin Cymru: <i>Is-ardal Eryri</i></p>	<p>Mae un o'r prif resymau a'r nodweddion cymhwysio yn hydrolegol, ac mae dau yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AAC yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA/AGA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwysio yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
( <i>Falco peregrinus</i> ) a'r cudyll bach ( <i>Falco columbarius</i> ) a rhywogaethau adar mudol yn digwydd yn aml.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Dilyn canllawiau (ynghylch niferoedd sy'n nythu, dosbarthiad, safleoedd nythu a chlwydo a chynefinoedd hela) ar gyfer rhywogaethau adar Atodiad I yn unol â'r CRhC.</li> </ul>				amgylcheddol ac ARhC	

# Atodiad C Asesiad Sgrinio o Safleoedd Ewropeaidd sydd â Chysylltiad Hydrolegol â Ffiniau CBSC ac o fewn 15 km

Defnyddir yr Amcanion yn Nhabl A.1 ar gyfer sgrinio Safleoedd Ewropeaidd sydd â chysylltiad hydrolegol â ffiniau CBSC ac o fewn 15km.

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<b>Coedydd Aber – ACA – 5 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hen goedwigoedd o dderw mes digoes gyda chelyn a rhywogaethau gwibredyn yn Ynysoedd Prydain.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Coedwigoedd lle y ceir gwern a helyg yn bennaf ar orlifdir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal y coetiroedd (drwy brosesau naturiol) ac amodau sy'n angenrheidiol i sicrhau presenoldeb rhywogaethau planhigion brodorol lleol ac na fydd ffawydd a chonwydd yn brif rywogaethau, yn unol â'r CRhC;</li> <li>Sicrhau bod coed sy'n marw neu sydd wedi marw'n bresennol ynghyd â phren marw cysylltiedig â rhywogaethau dibynnol eraill, fel y nodwyd yn y CRhC.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Coetir sy'n gadarn ar ei gilydd – lle i wella drwy dynnu conwydd a rhywogaethau goresgynnol eraill.</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd Gogledd-orllewin Cymru: <i>Is-ardal Eryri</i></p>	<p>Mae nodwedd cymhwyso yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
					<p>arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC</p>	
<b>Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion – ACA – 5 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b></p> <p><i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Hen goedwigoedd o dderw mes di-goes gyda chelyn a rhywogaethau gwibredyn yn Ynysoedd Prydain;</li> <li>Coedwigoedd lle y ceir gwern a helyg yn bennaf ar orlffdir.</li> </ul> <p><i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Ystlumod Pedol Lleiaf.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b></p> <p><i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyrsiau dŵr â matiau o grafanc y frân a rhywogaethau dŵr cysylltiedig eraill ar wyneb y dŵr.</li> <li>Rhostiroedd gwlyb Gogledd Iwerydd gyda grub deilgroes;</li> <li>Rhostiroedd sych Ewropeaidd;</li> <li>Coetir gyda chanopi amrywiol o ynn, pîsgwydd dail bach a cherddin Morgannwg gwyllt a phlanhigion is eithriadol;</li> <li>Coetiroedd ar gorsydd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal maint, adeiledd a chyfansoddiad rhywogaethau'r coetiroedd, fel y nodwyd yn y CRhC.</li> <li>Cynnal maint y coed marw sy'n bresennol fel y nodwyd yn y CRhC;</li> <li>Sicrhau nad oes rhywogaethau goresgynnol anffrodorol;</li> <li>Cynnal a chynyddu maint y boblogaeth bresennol o ystlumod pedol lleiaf drwy sicrhau bod digon o fannau clwydo o ansawdd priodol a chynefinoedd bwydo addas, a chadw ehangder a chysylltiedd meysydd bwydo.</li> <li>Cynnal ac (os oes modd) ehangu dosbarthiad y rhywogaethau planhigion sy'n gysylltiedig â chyrsiau dŵr. Sicrhau nad oes rhywogaethau sy'n dangos amodau anffafriol na rhywogaethau goresgynnol anffrodorol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Llysiâu'r afu a mwsoglau mewn ceunentydd dan fygythiad oherwydd gweithgareddau hamdden.</li> <li>Priddoedd o fewn y coetiroedd yn agored i effaith asideiddio.</li> <li>Ystlumod pedol lleiaf yn agored i niwed ar rai adegau o'r flwyddyn – mannau clwydo yn yr haf a'r gaeaf.</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd Gogledd-orllewin Cymru:</p> <p><i>Is-ardal Eryri</i></p>	<p>Mae un o'r nodweddion cymhwyso yn hydrolegol, ac mae tri o'r prif resymau a'r nodweddion cymhwyso yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p> <p>Er hynny, mae Ystlumod Pedol Lleiaf yn dibynnu ar nodweddion llinol i gymudo rhwng mannau clwydo a mannau bwydo. Felly byddai effeithiau eilaidd o ganlyniad i brosiectau fel</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b><u>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</u></b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
	(e.e. algâu ffilamentog sy'n gysylltiedig ag ewtroffeiddio).			clirio llystyfiant, goleuadau, etc yn gallu effeithio ar y safleoedd a ddynodwyd	amgylcheddol ac ARhC	
<b>Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid – ACA – 5 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyrsiau dŵr â matiau o grafanc y frân a rhywogaethau dŵr cysylltiedig eraill ar wyneb y dŵr.</li> </ul> <p><i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Eog yr Iwerydd (<i>Salmo salar</i>);</li> <li>Llyriad y dŵr arnofiol.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwys Eraill</b> <i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Llysywen bendoll y môr (<i>Petromyzon marinus</i>);</li> <li>Llysywen bendoll y nant (<i>Lampetra planeri</i>);</li> <li>Llysywen bendoll yr afon (<i>Lampetra fluviatilis</i>);</li> <li>Bawd y melinydd (<i>Cottus gobio</i>);</li> <li>Dyfrgwn (<i>Lutra lutra</i>).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod statws ecolegol yr amgylchedd dŵr yn ddigonol i gynnal poblogaeth o bob rhywogaeth (h.y. dim dirywiad yn ansawdd y dŵr).</li> <li>Osgoi newidiadau ffisegol a allai amharu ar gyfanrwydd yr ACA.</li> <li>Sicrhau nad yw ffactorau artiffisial yn cyfyngu nodweddion drwy eu hatal rhag ehangu eu cyrhaeddiad. Gellir gwneud hyn drwy addasu;</li> <li>Ar gyfer pob rhywogaeth Atodiad II: cynnal ac ehangu eu cyrhaeddiad posibl a sicrhau bod statws cadwraeth y rhywogaeth yn ffafriol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Y safle a'i nodweddion wedi'u bygwth gan arferion sy'n amharu ar ansawdd, maint a phatrwm llifau dŵr;</li> <li>Bygythiadau i ecosystemau afonydd yw: rheoli amhriodol ar lifau; tynnu gormod o ddŵr (at ddbenion diwydiannol, amaethyddol a domestig); bygythiadau i ansawdd dŵr o lygredd uniongyrchol a gwasgaredig; ewtroffeiddio a siltio;</li> <li>Diraddio cynefinoedd glannau'r afon oherwydd gwaith peirianyddol ac arferion amaethyddol ac mae'n bosibl bod rhywogaethau planhigion goresgynnol yn cael effaith niweidiol;</li> <li>Poblogaeth eog yr Iwerydd dan</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd Conwy a Chlwyd ac Afon Dyfrdwy:</p> <p><i>Is-ardal Glannau Dyfrdwy, Cilgwri a Sir y Fflint</i></p> <p><i>Is-ardal yr Wyddgrug</i></p> <p><i>Is-ardal Prif Afon Alun</i></p> <p><i>Is-ardal Dyfrdwy Uchaf</i></p>	<p>Mae'r holl brif resymau a nodweddion cymhwys yn hydrolegol neu'n gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwys yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
		fygythiad oherwydd gorbysgota ar y môr mawr, mewn aberoedd a chan bysgotwyr hamdden; <ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai cyflwyno rhywogaethau anfrodorol hefyd yn gallu bygwth rhywogaethau o bysgod a phlanhigion.</li> </ul>				
<b>Bae Lerpwl – AGA – 5 km</b>						
<p><b>Rhesymau dros ei Dynodi'n AGA</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Safle o bwys Ewropeaidd i rywogaethau adar Atodiad I sydd wedi'u rhestru yn y Gyfarwydeb Adar: Trochydd gyddfgoch (<i>Gavia stellata</i>) a Môr-hwyadan ddu (<i>Melanitta nigra</i>).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cadw'r banciau tywod ar y safle o fewn terfynau derbynol;</li> <li>Ni ddylai nifer cymedrig y boblogaeth o'r Trochydd gyddfgoch sy'n gaeafu fod yn is na 922;</li> <li>Ni ddylid cael gostyngiad sylweddol yn niferoedd yr adar sy'n gaeafu na'u dadleoli oherwydd aflonyddu;</li> <li>Dim lleihad yn y cynefin banciau tywod isarforol bas (&lt;20m) lle nad oes aflonyddu er mwyn môr-hwyaid du sy'n bwydo;</li> <li>Ni ddylai nifer cymedrig y boblogaeth o'r Fôr-hwyadan ddu sy'n gaeafu fod yn is na 54,675;</li> <li>Ni ddylai nifer cymedrig y boblogaeth o adar dŵr ac adar môr sy'n gaeafu fod yn is na 55,597.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai tynnu'r prif bysgod sy'n ysglyfaeth i'r Trochydd gyddfgoch yn gallu effeithio ar y boblogaeth;</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd Conwy a Chlwyd;</p> <p>Ardal cynllun rheoli llifogydd Afon Dyfrdwy;</p> <p>Ardal cynllun rheoli llifogydd Gogledd-orllewin Cymru.</p>	<p>Mae cynefinoedd a ffynonellau bwyd y rhywogaethau adar Atodiad I hyn yn gysylltiedig â hydroleg neu'n ddibynol arni.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr AGA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr AGA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
					lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC. Gallai hyn arwain at gyfyngu ar gyfnodau gweithio er mwyn y boblogaeth adar.	
<b>Traeth Lafan, Bae Conwy – AGA – 5 km</b>						
<p><b>Rhesymau dros ei Dynodi'n AGA</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Safle o bwys Ewropeaidd i rywogaethau adar Atodiad I sydd wedi'u rhestru yn y Gyfarwydddeb Adar: rhywogaethau adar sy'n gaeafu – Pioden fôr (<i>Haematopus ostralegus</i>) a'r Gylfinir (<i>Numenius arquata</i>).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod nifer cymedrig uchaf y pïod môr sy'n gaeafu yn 4,000 o leiaf ym mhob cyfnod o bum mlynedd a bod bwyd addas a digonol i gynnal poblogaeth o bïod môr;</li> <li>Lleihau unrhyw aflonyddu a allai eu hatal rhag bwydo;</li> <li>Sicrhau bod y safleoedd clwydo yn addas a heb aflonyddu gyda rheoli priodol a rheolaeth ar weithgareddau a allai amharu ar bïod môr (yn enwedig yn y tymor hir).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai codi cocos yn ysbeidiol drwy dreillio a sugno yn gallu lleihau ffynhonnell fwyd pïod môr.</li> </ul>	Is-ardaloedd Gogledd-orllewin Cymru – Ynys Môn; Eryri; Bangor a Chaemarfon; a Phen Llŷn.	<p>Mae cynefinoedd a ffynonellau bwyd y rhywogaethau adar Atodiad I hyn yn gysylltiedig â hydroleg neu'n ddibynnol arni.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr AGA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwys yn yr AGA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>



Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
					asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC. Gallai hyn arwain at gyfyngu ar gyfnodau gweithio er mwyn y boblogaeth adar.	
<b>Llyn Idwal – Ramsar – 5 km</b>						
<p><b>Rhesymau dros ei Dynodi'n safle Ramsar:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Maen Prawf 1 Ramsar: llyn bach, bas oligotroffig mewn peiran. Y basn creigiog hanner cylch sy'n cynnwys y llyn yw un o'r enghreifftiau gorau yn Eryri.</li> <li>Maen Prawf 2 Ramsar: cymuned planhigion gyfoethog ei rhywogaethau sy'n cynnwys bron pob un o'r rhywogaethau sy'n nodweddiadol mewn dŵr oligotroffig ym Mhrydain. Rhywogaethau gwerth eu nodi yw: gwybybyr chwebrigerog (<i>Elatine hexandra</i>) a mynawydlys (<i>Subularia aquatica</i>) (y ddwy'n anfynych yn genedlaethol) a phelenllys grogynnog (<i>Pilularia globulifera</i>) (mewn perygl ar lefel Ewropeaidd).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal y planhigion macroffyt nodweddiadol sy'n gysylltiedig â'r safle ynghyd â chylchfaoedd nodweddiadol y llystyfiant o'r glannau i'r dŵr a phroffil naturiol y llynnoedd (heb argaeau ar gyfer cronfeydd dŵr).</li> </ul>	Amherthnasol	Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru: <i>Is-ardal Eryri</i>	<p>Mae nodweddion y safle sy'n ymwneud â Meini Prawf 1 a 2 yn hydrolegol neu'n gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn y safle Ramsar.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwys yn y safle Ramsar nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
					asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC.	
<b>Afon Eden – Cors Goch Trawsfynydd – ACA – 10 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Misglen berlog (<i>Margaritifera margaritifera</i>);</li> <li>Llyriad y dŵr arnofiol.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyforgors actif.</li> </ul> <p><i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Eog yr Iwerydd;</li> <li>Dyfrgwn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cadw cyrhaeddiad presennol y rhywogaethau yn y tymor hir a sicrhau bod digon o gynefinoedd i gynnal poblogaethau presennol y rhywogaethau;</li> <li>Sicrhau poblogaeth helaeth a hunangynhaliol o eog yr Iwerydd gan mai'r rhywogaeth hon sy'n hwyluso trosglwyddo larfâu'r fisglen berlog;</li> <li>Cynnal neu gynyddu poblogaeth y dyfrgwn i adlewyrchu cynhwysedd cludo'r cynefin hwn. Sicrhau na fydd heldir y dyfrgwn yn lleihau. Gallai hyn ddibynnu ar helaethder eu hysglyfaeth;</li> <li>Sicrhau safleoedd bridio addas i ddyfrgwn lle nad oes aflonyddu. Os nad oes digon, dylid creu safleoedd drwy wella cynefinoedd a darparu gwalau artiffisial os oes angen;</li> <li>Ehangu lleoliad a dosbarthiad cyforgorsydd ac esgeiriau a ffeniau. Cynnal ac ehangu helaethder a dosbarthiad planhigion anghyffredin sy'n gysylltiedig â'r nodweddion hyn (fel y nodwyd yn y</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae misglenni perlog ac eogiaid yn neilltuol o agored i effaith llygredd dŵr;</li> <li>Pori dwys;</li> <li>Asideiddio.</li> </ul>	Ardal cynllun rheoli llifogydd Gogledd-orllewin Cymru: <i>Is-ardal Eryri</i>	<p>Mae'r holl brif resymau a nodweddion cymhwyso yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC.</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
	<p>CRhC);</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ac adfer cyfanrwydd ac adeiledd hydrolegol pob cors. Rheoli datblygiad glaswellt y bwla (<i>Molinia caerulea</i>) a phrysgwydd. Sicrhau nad oes coed;</li> <li>Sicrhau nad oes ffosydd artiffisial;</li> <li>Sicrhau nad oes rhywogaethau goresgynnol anffrodorol.</li> </ul>					
<b>Afon Gwyrfaï a Llyn Cwellyn – ACA – 10 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Coetir gyda chanopi amrywiol o ynn, pisgwydd dail bach a cherddin Morgannwg gwyllt a phlanhigion is eithriadol;</li> <li>Cyrsiau dŵr â matiau o grafanc y frân a rhywogaethau dŵr cysylltiedig eraill ar wyneb y dŵr.</li> </ul> <p><i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Eog yr Iwerydd;</li> <li>Llyriad y dŵr arnofiol.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b> <i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dyfrgwn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod ansawdd y dŵr yn addas i gynnal anifeiliaid a phlanhigion nodweddiadol;</li> <li>Cynnal neu ehangu nodweddion y cwrs dŵr a'r llystyfiant cysylltiedig;</li> <li>Cynnal neu gynyddu poblogaethau hirdymor eog yr Iwerydd a'r dyfrgi a'u cyrhaeddiad naturiol. Sicrhau bod cynefin addas ac, yn achos dyfrgwn, nad yw maint y boblogaeth wedi'i gyfyngu am nad oes digon o safleoedd bridio addas lle nad oes aflonyddu;</li> <li>Sicrhau bod Llyn Cwellyn ac Afon Gwyrfaï yn parhau i gynnal casgliad o lyriad y dŵr arnofiol ar eu hymylon gyda chylchfeydd llystyfiant nodweddiadol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Asideiddio;</li> <li>Mae Afon Gwyrfaï yn agored iawn i effeithiau cronol o newidiadau bach ar ei hyd a allai effeithio ar ansawdd dŵr ac adeiledd cynefinoedd.</li> </ul>	<p>Ardal cynllun rheoli llifogydd Gogledd-orllewin Cymru: <i>Is-ardal Eryri</i></p>	<p>Mae un o'r prif resymau yn hydrolegol, ac mae tri o'r prif resymau a nodweddion cymhwyso yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
					Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC.	
<b>Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd – ACA ac AGA – 10 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhostiroedd sych Ewropeaidd;</li> <li>Gorgors.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Glaswelltiroedd sych lled-naturiol a gweddau prysgdir: ar is-haenau calchaid (h.y. glaswelltiroedd a geir ar briddoedd tenau, cyfoethog o ran calch sydd wedi'u draenio'n dda sy'n gysylltiedig â chalch a chalchfaen);</li> <li>Cyforgorsydd trawsnewidiol a chorsydd crynedig;</li> <li>Sgrïau calchaid a calcshist o'r lefelau mynyddig ac alpaidd sy'n gyfoethog o ran rhedyn ac yn llochesi i nifer o rywogaethau prin.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ac ehangu'r gorgorsydd;</li> <li>Sicrhau bod rhywogaethau planhigion sy'n nodweddiadol o orgorsydd (sydd wedi'u nodi yn y CRhC) yn bresennol a bod lefel trwythiad uchel ym mhob rhan o'r gorgorsydd;</li> <li>Sicrhau bod patrwm afreolaidd yn datblygu ar draws yr orgors i gynnal ansawdd yr orgors;</li> <li>Adfer rhannau o'r cynefin gorgors sydd wedi diraddio ac anghymell llosgi'r orgors a datblygu draenïau neu gripïau rhosydd;</li> <li>Sicrhau nad oes rhywogaethau o blanhigion goresgynnol anfrodorol ac nad oes dirywiad yn amrywiaeth neu helaethder rhywogaethau planhigion sy'n nodweddu'r cynefin hwn.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu amaethyddol amhriodol (gan gynnwys: draenio, ailhadu, taenu gwrteithiau, llosgi, adeiladu traciau a mabwysiadu system pori niweidiol) sy'n bygwth gorgorsydd, ffenïau a glaswelltiroedd.</li> <li>Hefyd mae rhedyn ungoes yn ymledu i rannau o'r rhostiroedd a'r glaswelltiroedd.</li> <li>Problemau erydu oherwydd pwysau lleol gan ymwelwyr a difrod gan gerbydau hamdden.</li> </ul>	<p>Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru: <i>Is-ardal Dyfi Uchaf ac Wnion Uchaf</i></p>	<p>Mae 2 o'r prif resymau a nodweddion cymhwyso'n gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA/AGA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC.</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b><u>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</u></b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<b>Aber Dyfrdwy – ACA, AGA a Ramsar – 10 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Fflatiau llaid a fflatiau tywod heb eu gorchuddio gan ddŵr môr ar y distyll;</li> <li>Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill yn cytrefu llaid a thywod;</li> <li>Dolydd heli'r Iwerydd, sy'n cael eu boddi'n rheolaidd gan y môr ac sy'n cynnwys rhywogaethau planhigion blodeuol lluosflwydd nodweddiadol sy'n gallu goddef halen.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Aberoedd;</li> <li>Llystyfiant blynyddol ar linellau drifft;</li> <li>Clogwyni môr â llystyfiant ar arfordiroedd yr Iwerydd a'r Baltig;</li> <li>Twyni tywod mudol embryonig;</li> <li>Twyni tywod mudol ar hyd y draethlin gyda Moresg Ewropeaidd (<i>Ammophila arenaria</i>);</li> <li>Twyni tywod sefydlog â llystyfiant llysieuol;</li> <li>Llaciau twyni llaith.</li> </ul> <p><i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Llysywen bendoll y môr;</li> <li>Llysywen bendoll yr afon;</li> <li>Llysiau'r afu petalog (<i>Petalophyllum ralfsii</i>).</li> </ul> <p><b>Rhesymau dros ei Dynodi'n AGA</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid sicrhau na fydd y cynefinoedd aberol yn lleihau;</li> <li>Ni ddylid cael gwriad arwyddocaol yng nghymhareb y Prism/Trawstoriad Llanwol rhwng ac o fewn yr aber oddi wrth linell sylfaen sefydledig;</li> <li>Ni ddylid cael gwriad arwyddocaol yn y tymheredd a halwynedd cyfartalog oddi wrth linell sylfaen sefydledig;</li> <li>Sicrhau na fydd gostyngiad arwyddocaol yn nifer yr adar ac na fydd aflonyddu ar adar</li> <li>Cynnal presenoldeb a niferoedd pysgod bach er mwyn cynnal y rhostog gynffonfraith, y fôr-wennol gyffredin, y fôr-wennol fach a'r fôr-wennol bigddu;</li> <li>Sicrhau bod dosbarthiad presennol y cynefin clwydo addas yn parhau;</li> <li>Sicrhau nad yw'r morfeydd heli'n lleihau;</li> <li>Sicrhau na fydd y pyllau merddwr yn lleihau;</li> <li>Yn ystod y gaeaf, dylid cael gorchudd o 25% o leiaf o blanhigion sy'n dwyn hadau ac o laswellt a llyisiau dail meddal;</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai'r planhigion neilltuol yn sensitif i effaith pori;</li> <li>Effaith y mathau defnydd hanesyddol gerllaw gan gynnwys gwaredu gwastraff o ddiwydiannau gweithgynhyrchu blaenorol fel gweithfeydd cemegol a dur;</li> <li>Datblygu porthladdoedd a charthu'r afon ar gyfer mordwyo, gwaith ar amddiffynfeydd arfordirol a'u heffaith ar brosesau arfordirol, rheoleiddio pysgodfeydd a defnydd hamdden o'r tir rhynglanwol, twyni tywod a morfeydd heli.</li> </ul>	<p>Dalgylch Afon Dyfrdwy: <i>Is-ardal y Flint</i></p>	<p>Mae 8 o'r prif resymau a'r nodweddion cymhwyso'n hydrolegol, ac mae 5 yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Mae cynefinoedd a ffynonellau bwyd y rhywogaethau adar Atodiad I hyn yn gysylltiedig â hydroleg neu'n ddibynnol arni.</p> <p>Mae nodweddion y safle hwn sy'n gysylltiedig â Meini Prawf 1, 2, 5 a 6 yn hydrolegol neu'n gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA/AGA/ safle Ramsar.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC. Gallai hyn arwain at gyfyngu ar gyfnodau gweithio er mwyn gofalu am y boblogaeth</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgyllch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<p>Safle o bwysigrwydd Ewropeaidd oherwydd rhywogaethau adar Atodiad I sydd wedi'u rhestru yn y Gyfarwyddeb Adar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Yn y tymor nythu – Y fôr-wennol gyffredin (<i>Sterna hirundo</i>) a'r Fôr-wennol fach (<i>Sterna albifrons</i>);</li> <li>- Yn mudo – Y fôr-wennol bigddu (<i>Sterna sandvicensis</i>) a'r Pibydd coesgoch (<i>Tringa totanus</i>);</li> <li>- Yn gaeafu – Y rhostog gynffonfraith (<i>Limosa lapponica</i>); Y rhostog gynffonddu (<i>Limosa limosa</i>); Gylfinir (<i>Numenius arquata</i>); Pibydd y mawn (<i>Calidris alpina</i>); Cwtiad llwyd (<i>Pluvialis squatarola</i>); Pibydd yr aber (<i>Calidris canuta</i>); Pioden fôr; Hwyaden lostfain (<i>Anas acuta</i>); y Pibydd coesgoch; Hwyaden yr eithin (<i>Tadorna tadorna</i>); a'r Gorhwyaden (<i>Anas crecca</i>).</li> </ul> <p><b>Rhesymau dros ei Dynodi'n safle Ramsar:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Dan faen prawf 1 Ramsar: Fflatiau llaid a thywod rhynglanwol helaeth gyda morfeydd heli eang tua phen uchaf yr aber.</li> <li>▪ Dan faen prawf 2 Ramsar: Yn cynnal nythfeydd o lyffantod y twyni sy'n agored i niwed (<i>Epidalea calamita</i>).</li> <li>▪ Dan faen prawf 5 Ramsar: Yn cynnal 120,726 o adar dŵr yn gyson y tu allan i'r tymor nythu.</li> <li>▪ Dan faen prawf 6 Ramsar: Rhywogaethau neu boblogaethau sydd ar lefelau o bwysigrwydd rhyngwladol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Sicrhau nad yw'r morlin creigiog yn lleihau yn Hilbre Island, Middle Eye, Little Eye a Tanskey Rocks;</li> <li>▪ Sicrhau na fydd digwyddiadau aflonyddu'n digwydd yn amlach;</li> <li>▪ Sicrhau na fydd cynnydd yn nifer y môr-wenoliaid sy'n marw mewn cysylltiad â thraffig a cheblau pŵer;</li> <li>▪ Cynnal y cylchfeydd rhwng tywod glân a thywod lleidiog a rhwng llaid yng ngheg yr aber a phen uchaf yr aber;</li> <li>▪ Sicrhau na fydd y ffin rhwng morfeydd heli a fflatiau llaid yn gwyro i raddau arwyddocaol;</li> <li>▪ Sicrhau na fydd cynnydd arwyddocaol yng nghrynodiad y ffytoplancton;</li> <li>▪ Sicrhau na fydd cynnydd yn y crynodiad o sylweddau peryglus;</li> <li>▪ Sicrhau na fydd amrywiaeth y biotopau yn lleihau;</li> <li>▪ Sicrhau na fydd gostyngiad arwyddocaol yng nghyrrhaeddiad cymunedau arloesol unigol ar forfeydd heli;</li> <li>▪ Sicrhau na fydd <i>Spartina anglica</i> yn ymledu ar y</li> </ul>				<p>adar.</p>	

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgyllch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
	<p>morfeydd heli;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau na fydd <i>Centaureium littorale</i> yn mynd llai helaeth;</li> <li>Sicrhau na fydd gostyngiad arwyddocaol yng nghyrrhaeddiad cyfan y cymunedau ar ddolydd heli'r lwerydd.</li> </ul>					
<b>Llwyn – ACA – 10 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yr enghraifft fwyaf o goedwigoedd llifwaddodol sydd wedi ffurfio ar orliffdir Afon Clywedog ac sydd â chanopi o wern sy'n trawsnewid yn ynn mewn mannau.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal maint presennol y coetir (drwy brosesau naturiol);</li> <li>Sicrhau bod rhywogaethau llydanddail brodorol lleol yn datblygu yn ogystal â rhywogaethau planhigion eraill sydd wedi'u nodi yn y CRhC. Cadw lefel trwythiad uchel i wrthsefyll sycamorwydd a rhywogaethau anfrodorol eraill. Cynnal adeiledd y coetir sydd wedi'i nodi yn y CRhC a'i adfywio;</li> <li>Sicrhau bod digonedd o goed marw ym mhob rhan o'r coetir.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai sycamorwydd ymledol yn gallu disodli coed ynn ar draws y safle;</li> <li>Gall fod yn anodd cynnal y lefelau trwythiad yn enwedig os bydd lefelau uchel o ddŵr yn yr haf.</li> </ul>	<p>Dalgyllch Afon Conwy ac Afon Clwyd: <i>Is-ardal yr ucheldir</i></p>	<p>Mae'r prif reswm yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<b>Pen Llŷn a'r Sarnau – ACA – 10 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Banciau tywod wedi'u gorchuddio ychydig gan ddŵr môr bob amser;</li> <li>Aberoedd;</li> <li>Lagwnau arfordirol;</li> <li>Cilfachau a baeau bas a mawr;</li> <li>Riffiau.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Salicornia a phlanhigion unflwydd eraill yn cytrefu llaid a thywod;</li> <li>Dolydd heli'r Iwerydd, sy'n cael eu boddi'n rheolaidd gan y môr ac sy'n cynnwys rhywogaethau planhigion blodeuol lluosflwydd nodweddiadol sy'n gallu goddef halen;</li> <li>Ogof fôr sydd wedi'i boddi neu ei rhannol fodd.</li> </ul> <p><i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dolffin trwyn potel (<i>Tursiops truncatus</i>);</li> <li>Dyfrgwn;</li> <li>Morlo llwyd (<i>Halichoerus grypus</i>).</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal nodweddion arbennig yr ACA o ran cynefinoedd a rhywogaethau a'u hadfer os bydd angen fel y gallant ymgynnal yn y tymor hir yn rhan o ecosystemau sy'n gweithio'n naturiol;</li> <li>Dylid adfer tir ychwanegol a ddylai fod yn rhan annatod o ecosystemau'r aber a dylid hefyd adfer adeiledd a gweithrediadau'r aber, sydd wedi'u difrodi gan gyfyngiadau artiffisial fel morgloddiau;</li> <li>Mae angen cynnal sefydlogrwydd y fflatiau llaid a fflatiau tywod rhynglanwol a nodweddion y banciau tywod neu ehangu'r nodweddion hyn;</li> <li>Dylai'r lefelau maethynnau yn y golofn ddŵr a'r gwaddodion fod yn unol â'r terfynau presennol yn y canllawiau statudol neu'n is;</li> <li>Rhaid i'r lefelau halogyddion yn y golofn ddŵr a'r gwaddodion sy'n deillio o weithgareddau dynol fod yn unol â'r terfynau presennol yn y</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adeiladu – e.e. byddai llithrfeydd, amddiffynfeydd arfordirol a marinas/ porthladdoedd yn gallu aflonyddu ar gynefinoedd aberol a rhynglanwol a rhai ar fflatiau llaid, fflatiau tywod a riffiau ac ymyrryd â phrosesau ffisegol sy'n hanfodol i gynnal y cynefinoedd hyn.</li> <li>Mae cymunedau ar riffiau'n agored i effaith dulliau pysgota penodol.</li> <li>Y posibilrwydd o ddrilio am olew a nwy yn y dyfodol ym Mae Ceredigion a Môr Iwerddon – a hefyd y posibilrwydd o ddatblygu ynni gwynt ar y môr.</li> <li>Mae datblygu ffynhonnau olew a thraffig cychod ym Môr Iwerddon yn creu ffynonellau posibl o lygredd.</li> </ul>	<p>Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru: <i>Is-ardal Pen Llŷn</i></p>	<p>Mae 6 o'r prif resymau a nodweddion cymhwyso'n hydrolegol, ac mae 4 yn gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA/AGA/ safle Ramsar.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC.</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>



Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
	<p>canllawiau statudol neu'n is;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhaid i boblogaethau rhywogaethau nodweddiadol sy'n cael eu pysgota'n fasnachol fod o helaethder sy'n gyson neu'n fwy na'r hyn sydd ei angen i gael y cynnyrch cynaliadwy mwyaf a sicrhau diogelwch y cyflenwad yn y tymor hir;</li> <li>O ran y cynefin riffiau, ni ddylid cyfyngu ar y posibilrwydd o ehangu'r gymuned o farchfislod <i>Modiolus modiolus</i> oddi ar arfordir gogledd Llŷn.</li> </ul>					
<b>Llyn Tegid – Ramsar – 10 km</b>						
<p><b>Rhesymau dros ei Dynodi'n safle Ramsar:</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dan faen prawf 1 Ramsar: y llyn naturiol mwyaf yng Nghymru, sy'n ddwfn mewn cafn a oedd gynt yn rhewlifol.</li> <li>Dan faen prawf 2 Ramsar: <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhywogaethau planhigion sy'n anfynych ym Mhrydain – er enghraifft: Lleidlys (<i>Limosa aquatica</i>), gwybybyr chwebrigerog, hesg y dŵr (<i>Carex aquatilis</i>); a llyriad y dŵr arnofiol, sy'n rhywogaeth sydd mewn peryl yn fyd-eang;</li> <li>1 o ddim ond 6 safle ym Mhrydain lle y mae powaniaid (<i>Coregonus lavaretus</i>);</li> <li>Mae rhywogaethau o bysgod penllwyd (<i>Thymallus</i></li> </ul> </li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal arwynebedd y llyn gan gynnwys ffeniau llyn a gwernydd;</li> <li>Cynnal a chynyddu helaethder a dosbarthiad rhywogaethau dŵr prin a rhywogaethau ifanc fel eu bod yn ymgynnal. Sicrhau bod haenau'r ffeniau a'r gwernydd yn cynnwys rhywogaethau brodorol lleol sydd wedi'u nodi yn y CRhC;</li> <li>Sicrhau nad oes rhywogaethau goresgynnol anffroddol;</li> <li>Sicrhau bod ansawdd y dŵr yn dda o ran ei statws ecolegol a bod rheolaeth ar ewtroffigedd.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bygythiadau oherwydd arferion sy'n gallu amharu ar ansawdd, maint a phatrymau llifau dŵr.</li> <li>Gall yr arferion hyn gynnwys: rheoli amhriodol ar lifau dŵr, tynnu gormod o ddŵr, bygythiadau i ansawdd dŵr oherwydd llygredd uniongyrchol a gwastgaredig, ewtroffigedd a siltio;</li> <li>Diraddio cynefinoedd glannau afon</li> </ul>	<p>Dalgylch Afon Dyfrdwy: <i>Is-ardal Dyfrdwy Uchaf</i></p>	<p>O nodweddion y safle hwn sy'n ymwneud â Meini Prawf 1 a 2, mae 5 yn hydrolegol neu'n gysylltiedig â hydroleg felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn y safle Ramsar.</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwys ym safle Ramsar nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<p><i>thymallus</i>) yn y llyn hwn – fe'u ceir fel arfer mewn ecosystemau afon;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Canfuwyd y falwen glwtinas (<i>Myxas glutinosa</i>) sy'n brin yn genedlaethol yng ngraeau bas glannau'r llyn.</li> </ul>		<p>oherwydd gwaith peirianyddol ac arferion amaethyddol a gall rhywogaethau planhigion goresgynnol gael effaith niweidiol hefyd.</p>			<p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC.</p>	
<b>Rhinog – ACA – 15 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Rhostiroedd sych Ewropeaidd;</li> <li>▪ Hen goedwigoedd o dderw mes di-goes gyda chelyn a rhywogaethau gwibredyn yn Ynysoedd Prydain.</li> </ul> <p><b>Nodweddion Cymhwyso Eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Merddwr gyda chymunedau llystyfiant sydd wedi'u nodweddu gan llystyfiant lluosflwydd byr amffibiaidd;</li> <li>▪ Rhostiroedd gwlyb Gogledd Iwerydd gyda grug deilgroes;</li> <li>▪ Rhostiroedd Alpaidd a Boreal;</li> <li>▪ Gorgorsydd;</li> <li>▪ Pantiau ar is-henau mawn o 'Rhynchosporion' (cynefin prin o fawn llaith, agored lle mae strbedi o llystyfiant).</li> </ul> <p><i>Rhywogaethau Atodiad II</i> Llyriad y dŵr arnofiol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cynnal, ehangu a gwella adeiledd rhostiroedd sych a gwlyb, coetiroedd, gorgorsydd a rhostiroedd alpaidd ac is-alpaidd. Cynnal y llynnoedd dŵr clir yn eu cyflwr presennol;</li> <li>▪ Adfer rhannau o rostiroedd gwlyb sydd wedi diraddio;</li> <li>▪ Sicrhau bod rhywogaethau nodweddiadol ac anghyffredin mewn rhostiroedd sych a gwlyb, coetiroedd, gorgorsydd, rhostiroedd alpaidd ac is-alpaidd a llynnoedd dŵr clir yn helaeth a chyffredin fel y mae'r CRhC yn nodi;</li> <li>▪ Sicrhau nad oes rhywogaethau goresgynnol anfrodorol mewn rhostiroedd sych a gwlyb, coetiroedd, gorgorsydd, rhostiroedd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Pwysau o weithgareddau hamdden ar lwybrau cyhoeddus a meysydd parcio'n unig – effaith fach iawn ar y nodweddion arbennig;</li> <li>▪ Rhostir cefnforol cyfoethog o ran cen a bryoffytau – yn agored i effaith llosgi a gorbori.</li> </ul>	<p>Dalgylch Gogledd-orllewin Cymru: <i>Is-ardal Eryri</i></p>	<p>Mae 4 o'r nodweddion cymhwyso'n gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p> <p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgylch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
	<p>alpaidd ac is-alpaidd, ac nad oes coed fel arfer wynebaw rhostiroedd a gorgorsydd;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Sicrhau bod coed marw yn y coetiroedd fel y mae'r CRhC yn nodi;</li> <li>Sicrhau nad yw mawn wedi'i erydu ar rannau helaeth o'r gorgorsydd;</li> <li>Cynnal cyrhaeddiad a dosbarthiad presennol y poblogaethau o lyriad y dŵr arnofiol yn Llyn Cwm Bychan. Sicrhau bod cynefinoedd digonol i gynnal y poblogaethau presennol ar sail eu dosbarthiad presennol ac yn y dyfodol.</li> </ul>				Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC.	
<b>Mynydd Helygain – ACA – 15 km</b>						
<p><b>Prif Resymau am ei Dynodi</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae math o lystyfiant metelaidd yn tyfu'n helaeth yma sy'n gysylltiedig â hen gloddfeydd plwm a sinc.</li> </ul> <p><i>Rhywogaethau Atodiad II</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Madfallod dŵr cribog (<i>Triturus cristatus</i>).</li> </ul> <p><b>Nodweddion cymhwyso eraill</b> <i>Cynefinoedd Atodiad I</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Rhostiroedd sych Ewropeaidd;</li> <li>Glaswelltiroedd sych lled-naturiol a gweddau prysgdir: ar is-haenau calchaid (h.y. glaswelltiroedd a geir ar briddoedd tenau, cyfoethog</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnal ac ehangu cynefinoedd: glaswelltir, rhostir sych, prysgdir a dolydd <i>Molinia</i>;</li> <li>Sicrhau bod y rhywogaethau planhigion yng nghymunedau'r glaswelltir a'r rhostir ac yn y cynefinoedd prysgdir yn cyfateb i'r rhai yn y CRhC;</li> <li>Cynnal adeiledd glaswelltiroedd a chymunedau'r rhostir a'r prysgdir fel y mae'r CRhC yn nodi. Sicrhau bod yr amodau hydrolegol yn cynnal y dolydd <i>Molinia</i> (yn enwedig o ran maint</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cafwyd cloddio helaeth yma;</li> <li>Am fod gostyngiad o ran pori llai dwys, mae rhedyn ungoes a phrysgwydd wedi ymledu;</li> <li>Ceir arferion amaethyddol amhriodol yma e.e. gorbori, bwydo a dyfrio da byw, llosgi a thorri.</li> </ul>	Dalgylch Afon Dyfrdwy: <i>Is-ardal y Flint</i>	<p>Mae 1 o'r prif resymau'n gysylltiedig â hydroleg.</p> <p>Felly byddai gweithredu'r SLRhPLI yn gallu effeithio ar y safle hwn.</p>	<p>Ymgynghori a chaniatâd i CCGC/CBSC/AA C yn ofynnol am waith mewn cyrsiau dŵr.</p> <p>O ganlyniad i ymgynghori â chyrrff statudol (fel CCGC/CBSC) rhagwelir y byddai angen cynllun rheoli ar gyfer pob prosiect er mwyn gwneud gwaith yn yr ACA.</p>	<p>Ar yr amod bod cydymffurfio â mesurau rheoli, <b>rhagwelir Na Fydd Effeithiau Arwyddocaol ar nodweddion cymhwyso yn yr ACA nac ar eu rheoli.</b></p> <p>Nodwyd effeithiau llesol posibl.</p>

Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Bwrdeistref Sirol  
Conwy

Rhesymau am y Dynodiad	Amodau Amgylcheddol Allweddol sy'n ategu cyfanrwydd y safle	Gwendidau Amgylcheddol	Dalgyrch (oedd) (AA 2010)	Canlyniadau sgrinio dechreuol heb fesurau rheoli	Mesurau rheoli	Canlyniadau sgrinio â mesurau rheoli
<p>o ran calch sydd wedi'u draenio'n dda sy'n gysylltiedig â chalch a chalchfaen);</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Dolydd o <i>Molinia</i> sydd gyda'r mwyaf cyfoethog eu rhywogaethau o'r holl laswelltiroedd <i>Molinia</i> yn y DU – maent yn cynnwys glaswellt y bwla ac amrywiaeth eang o rywogaethau cysylltiedig eraill.</li> </ul>	<p>ac ansawdd dŵr);</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Rheoli lefelau pori ar laswelltiroedd;</li> <li>▪ Sicrhau nad oes rhywogaethau goresgynnol anffrodorol;</li> <li>▪ Mewn cysylltiad â madfallod dŵr cribog: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Dylai'r safle gynnal o leiaf 200 o oedolion yn y pyllau dŵr ac o'u cwmpas;</li> <li>- Rheoli cynefinoedd tir a dŵr i sicrhau bod pyllau dŵr addas ar gyfer bridio a bod mannau bwydo, cysgodi a gaeafu ar gyfer madfallod dŵr cribog. Cadw ac adfer y pyllau dŵr presennol;</li> <li>- Sicrhau bod yr amodau mewn o leiaf 50% o'r pyllau dŵr yn addas i fadfallod dŵr cribog fel y mae'r CRhC yn nodi;</li> <li>- Sicrhau nad oes dim yn rhwystro ymlediad madfallod a bod llochesi ar gael o fewn 50 m i'r pyllau dŵr ar gyfer bridio;</li> <li>- Sicrhau nad yw chytridiomycosis amffibiaidd yn bresennol.</li> </ul> </li> </ul>				<p>Gellir lleihau effeithiau ar yr amgylchedd drwy arferion da ar y safle.</p> <p>Asesiadau ar lefel prosiect fel asesiadau o'r effaith amgylcheddol ac ARhC.</p>	